

Agenda

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyfarfod Cyhoeddus
Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Mercher 29 Gorffennaf 2026
Amser y cyfarfod:	9:00 – 12:00
Lleoliad:	Rhithiol
Amser	Eitem
09:00 (30 munud)	Sesiwn Cyfarwyddwyr
9:30 (5 munud)	Eitem 1. Agor y Cyfarfod • Croeso • Datganiad Buddiannau • Egluro trefn y cyfarfod Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev (Cadeirydd) Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau buddiannau
9:35 (5 munud)	Eitem 2. Adolygu Cofnodion a'r Log Camau Gweithredu a Phenderfyniadau 2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd a gynhaliwyd ar 20 Mai 2B. Adolygu'r Log Camau Gweithredu a Phenderfyniadau Cyhoeddus Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev (Cadeirydd) Crynodeb: CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r Log Camau Gweithredu
9:40 (10 munud)	Eitem 3. Diweddariad gan y Cadeirydd Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev (Cadeirydd) Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd

9:50
(20 munud)

Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a Chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr

Crynodeb: NODI y sefyllfa bresennol a diweddaru'r Bwrdd ar weithgareddau allweddol

Cyfeirnod papur: 26-07-B01

10:10
(20 munud)

Eitem 5. Diweddaru Adroddiad y Pwyllgorau

Noddwyr a Chyflwynwyr: Cadeiryddion Pwyllgorau

Pwyllgor neu ffora sydd wedi gyfarfod ers Bwrdd diwethaf:-

- Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg – 4 Mehefin ac 8 Gorffennaf (Cyfarfod Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon) - **Cyfeirnod papur: 26-07-B03 & 26-07-B14**
- Pwyllgor Cyllid – 2 Gorffennaf - **Cyfeirnod papur: 26-07-B11**
- Pwyllgor Pobl – 24 Mehefin - **Cyfeirnod papur: 26-07-B04**
- Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig – 11 Mehefin – **Cyfeirnod papur: 26-07-B02**
- Fforwm Rheoli Tir Cymru – 6 Mehefin Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru – 7 Gorffennaf
- Pwyllgor Cyflawni Strategol – 13 Gorffennaf

Pwyllgor neu ffora nad ydynt i gyfarfod tan ar ôl Bwrdd:-

- Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth
- Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd
- Pwyllgor Ystad Tir
- Fforwm Pysgodfeydd Cymru
- Fforwm Rheoli Dŵr Cymru

Crynodeb: NODI y diweddariadau gan Bwyllgorau'r Bwrdd a Fforymau CNC, mewnol ac allanol, a chyfarfodydd a gynhaliwyd

10:30
(10 munud)

Eitem 6. Adroddiad Perfformiad Cyllid

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

Crynodeb: CYMERADWYO'R newid yn y rhagolwg diweddaraaf ac i GRAFFU'R perfformiad ariannol

Cyfeirnod papur: 26-07-B06

10:45
(10 munud)

Eitem 7. Datganiad Caethwasiaeth Fodern Blynyddol

Noddwr a Chyflwynydd: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol

Crynodeb: CYMERADWYO y Ddatganiad Caethwasiaeth Fodern CNC ar gyfer 2026-27 ac Atal Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl: Cynllun 5 Mlynedd (2026-2031).

Cyfeirnod papur: 26-07-B05

10:55
(10 munud)

Egwyf

11:05
(20 munud)

Eitem 8. Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch Blynyddol

Noddwr: Louise White, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Cyfleusterau a'r Fflyd

Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch

Crynodeb: CYMERADWYO yr Adroddiad Blynyddol Lles, Iechyd a Diogelwch a Dysgu a Ddatblygu ar gyfer 2025-2026.

Cyfeirnod papur: 26-07-B07

11:25
(20 munud)

Eitem 9. Adroddiad Chwarterol Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes – Ch1

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth

Cyflwynwyr: Arweinwyr Amcanion Llesiant; Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a PMO

Crynodeb: CYMERADWYO yr Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 y Cynllun Busnes 2026/27. Cymryd NODYN o'r Adroddiad Perfformiad Mewnol a chymryd NODYN o'r prif risgiau cyflawni a'r mesurau lliniaru a nodwyd yn yr adroddiad.

Cyfeirnod papur: 26-07-B08

11:45
(10 munud)

Eitem 10. Sut wnaethom ni yn y cyfarfod hwn?

Noddwr: Neil Sachdev, Cadeirydd

Crynodeb: Adolygiad o'r cyfarfod

11:55 (5 munud)	Eitem 11. Unrhyw Fater Arall
12:00	Cloi'r Cyfarfod Cyhoeddus
12:00 (45 munud)	Cinio

Cofnodion heb eu cadarnhau

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC (Cyhoeddus)
Lleoliad:	Swyddfa Llandarcy a Teams
Dyddiad y cyfarfod:	20 Mai 2026
Aelodau yn bresennol:	Neil Sachdev, Cadeirydd Ceri Davies, Prif Weithredwr Sarah Albon Dr Hushneara Begum Rebecca Colley-Jones Dr Pete Fox Yr Athro Calvin Jones Lesley Jones Yr Athro Rhys Jones Mark McKenna Helen Pittaway Adam Taylor
Aelodau o'r Tîm Gweithredol yn bresennol:	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Cenedlaethol Lyndsey Rawlinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Lle
Mynychwyr yn bresennol:	Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (Pob eitem) Meinir Wigley, Pennaeth Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol Mark Collins, Rheolwr Tîm Cyllid Busnes 2 Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a Swyddfa Rheoli Rhaglenni (PMO) – eitem 7 Sian Williams, Pennaeth Gogledd-orllewin Cymru – eitem 8 Mary Lewis, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol – eitem 8

	Becky Favager, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu – eitem 8 Huwel Manley, Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru – eitem 8 Rhian Jardine, Pennaeth DPAS a Gwasanaethau Morol – eitem 8 Rhian Thomas, Rheolwr Dŵr a Natur Cynaliadwy – eitem 8 Gareth Davies, Rheolwr Gweithrediadau, De-orllewin Cymru – eitem 8 Matthew Lowe, Arweinydd Tîm, Tîm yr Amgylchedd – eitem 8 Jonathan Jones, Arweinydd Tîm, Tîm yr Amgylchedd – eitem 8
Arsylwyr yn bresennol:	Ulfa Bennett Matthew Hywell Thomas
Ymddiheuriadau:	Mair Gwynant, Aelod o'r Bwrdd Louise White, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Chyfleusterau
Ysgrifenyddiaeth:	Rhiannon Spencer, Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd a Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd Sian Johnston, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Lauren Hughes, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Deb Lee, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Datganiadau o Fuddiannau	Mark McKenna – Cais cynllunio ar un o safleoedd Down to Earth sy'n ffinio â/yn cynnwys, ardal wedi'i dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), safle RAMSAR (Gwlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol)/Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)

Eitem 1. Agor y Cyfarfod

Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev, Cadeirydd

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod gan groesawu pawb, gan gynnwys aelod newydd y Bwrdd, Sarah Albon. Nodwyd datganiadau o ddiddordeb ac ymddiheuriadau fel y'u gwelir uchod.

Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion

Eitem 2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd a gynhaliwyd ar 18 Mawrth

2. Cafodd cofnodion cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd ar 18 Mawrth eu hadolygu a'u cytuno gyda mân ddiwygiadau.
3. Cododd Lesley Jones fater yn ymwneud â Fforwm Pysgodfeydd Cymru yn y cofnodion. Roedd hi wedi ymweld â deorfa yn ddiweddar, ac yn ystod yr ymweliad hwnnw awgrymwyd y dylid adolygu'r defnydd o'r ddeorfa ar gyfer Eogiaid. Esboniwyd bod adolygiad ym mlynnyddoedd cynnar CNC o'r dystiolaeth ynghylch cyflwyno eogiaid o'r deorfeydd i'r amgylchedd wedi dangos y gallai hynny wneud y boblogaeth o eogiaid yn fwy agored i beryglon. Awgrymodd y Bwrdd y dylid adolygu hyn, gan y gallai'r sefyllfa fod wedi newid, a dylid gwneud dadansoddiad o gost a budd hefyd. Rhoddwyd sicrwydd nad oedd y penderfyniad gwreiddiol wedi'i ddylanwadu gan gostau.

Eitem 2B. Adolygu'r Log Camau Gweithredu

4. Ni adolygwyd y Log Camau Gweithredu.

Eitem 3. Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd

Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev, Cadeirydd

5. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem a rhoddodd ddiweddariad ar unrhyw faterion ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd. Roedd aelodau newydd y Bwrdd wedi cael eu penodi i bwyllgorau: byddai Sarah Albon yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid (FC) a'r Pwyllgor Pobl (PC), ac roedd Mair Gwynant wedi'i phenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg (ARAC).
6. Roedd ymweliad safle wedi'i gynnal gyda'r tîm Morol, a phwysleisiodd y Cadeirydd fod angen gwell cyfathrebu ynghylch y gwaith rhagorol a oedd yn cael ei wneud gan gydweithwyr ar draws y sefydliad. Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr hefyd wedi cyfarfod â'r Gweinidog newydd dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd, ac fe roesant drosolwg o'r cyfarfod, a oedd yn gadarnhaol. Byddai'r Gweinidog yn cael gwahoddiad i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.

Eitem 4. Diweddariad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a Chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr

7. Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr eitem gan amlygu'r materion allweddol. Roedd Bwrdd Comisiwn Coedwigaeth Lloegr yn bwriadu ymweliad â chydweithwyr o CNC Cymru i drafod a dysgu am gyflawni ar ynni. Mae'n debygol y byddai hyn yn digwydd yn ystod wythnos Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru (RWAS), a byddai aelodau'r Bwrdd yn cael gwahoddiad i fynychu. Roedd CNC hefyd yn gweithio gyda

Chomisiwn Coedwigaeth Lloegr ar Lesiant, lechyd a Diogelwch (WHS), ac roedd digwyddiad grŵp yn cael ei drefnu i drafod hyn.

8. Roedd Memorandwm o Ddealltwriaeth (MOU) newydd wedi'i lofnodi gydag Awdurdod Cyllid Cymru (WRA) i ehangu'r ymdrechion yn erbyn gweithgareddau anghyfreithlon yn ymwneud â gwastraff. Byddai ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i gydweithio'n agosach ag awdurdodau lleol ar y mater hwn. Roedd stondin ar y cyd yn cael ei hystyried ar gyfer y digwyddiad nesaf o 'Sgyrsiau gyda CNC' gyda'r cyhoedd, er mwyn dangos sut mae CNC ac WRA yn cydweithio gan ddefnyddio'r system droseddol a'r system dreth i fynd i'r afael â thipio gwastraff yn anghyfreithlon.
9. Trafodwyd yr heriau yn ymwneud â thipio a gwastraff anghyfreithlon, gan gynnwys y cyfyngiadau rheoleiddiol a'r angen am bwerau gorfodi cryfach. Hysbyswyd y Bwrdd bod hyn wedi'i godi gyda'r Gweinidog. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cefnogaeth i'r rhai sy'n gweithio yn y sector, a thrafodwyd a ellid gwella hynny. Cytunwyd bod angen trafodaeth ynghylch rheoleiddio yn un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu Rheoleiddio at Ragolwg y Bwrdd.

10. Cynhelir cyfarfod yn fuan gyda Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i ddeall beth allai CNC ei wneud mewn ymateb i'r sesiwn ysgogi syniadau o Ddiwrnod Cynllunio Strategol y Bwrdd ym mis Ebrill, a pha gamau y gellid eu cymryd i gydlynu perthnasoedd. Roedd dull tebyg yn cael ei fabwysiadu gyda Chyngor Abertawe i feithrin perthnasoedd er mwyn i CNC gael ei gynnwys mewn trafodaethau cynnar pan fo datblygiadau ar y gweill. Byddai cydweithio â Chyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn enghraifft dda o sut gallai CNC weithio mewn ardaloedd eraill o Gymru, er mwyn sicrhau cyfranogiad cynharach mewn cynllunio datblygu a gosod safonau amgylcheddol. Byddai'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn.
11. Cynhaliwyd dau gyfarfod â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (FGC) ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth – un yn gyfarfod rheolaidd a'r llall yn canolbwyntio ar Amcan Llesiant 4, a oedd wedi'i ddiweddarau yn dilyn eu barn a'u sylwadau.
12. Mewn ymateb i ymholiad ynghylch trafodaethau CNC â'r FGC ar edrych i'r dyfodol, eglurwyd bod angen ystyried defnyddio'r Amcanion Llesiant a sut gellid ehangu'r defnydd ohonynt. Eglurwyd bod angen i CNC wneud mwy o waith cyfathrebu ynghylch dod â chyrff eraill ynghyd i drafod y dyfodol a sut gallai eraill gyfrannu.
13. Sicrhawyd y Bwrdd bod rhai elfennau o'r Amcanion Llesiant wedi'u hailysgrifennu i adlewyrchu iaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a hefyd yn dilyn mewnbyn yr FGC i Amcan Llesiant 4. Roedd CNC wedi cynnig cymorth i gefnogi gwaith y Comisiynydd.
14. Roedd ET wedi bod yn canolbwyntio ar weithio gyda'r tîm arwain, gan eu cefnogi o ran arwain staff ac arwain ar yr amgylchedd. Byddai digwyddiad arweinyddiaeth yn

cael ei gynnal yn yr hydref i ganolbwyntio ar yr ymddygiadau a drafodwyd yn ystod y Diwrnod Cynllunio Strategol, a ddeilliodd o'r Arolwg o Ganfyddiadau Rhanddeiliaid.

15. Roedd gwaith wedi symud yn ei flaen ym maes ynni niwclear ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth. Un o'r prif feysydd ffocws oedd lleihau cymhlethdod yn y broses ymgeisio a gwneud gwelliannau i alluogi i fuddsoddwyr fuddsoddi yn gyflymach. Roedd Llywodraeth Cymru (LIC) wedi sefydlu Grŵp Swyddogion i efelychu Grŵp DEFRA ar gyfer partneriaid allweddol yng Nghymru, gan gydnabod datganoli ond hefyd gan fwrw ymlaen â gwaith y gellid ei wneud yn y cyfamser.
16. Codwyd cwestiwn ynghylch capasiti sgiliau niwclear, ac eglurwyd bod gan CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) berthynas gref, a bod yr EA yn darparu adnoddau y mae CNC yn talu amdanynt. Roedd trafodaethau hefyd yn mynd rhagddynt gyda LIC ynghylch buddsoddiad i ddatblygu sgiliau niwclear, ac roedd y mater hefyd wedi'i godi gyda'r Gweinidog newydd.
17. Mewn ymateb i ymholiad, roedd y posibilrwydd o adolygiad barnwrol wedi'i drafod pan ddaeth uwch-reoleiddwyr y sector niwclear at ei gilydd. Roedd yr holl bartneriaid yn ymwybodol o'r gwahanol safbwyntiau polisi a deddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr.
18. Trafodwyd Prosiect Teifi Fyw, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd o weithio mewn ffyrdd newydd. Roedd y tîm Prosiectau Strategol yn rheoli hyn, ac roedd eu cylch gwaith yn cynnwys bod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer rheoli prosiectau i'r sefydliad. Roedd dysgu o brosiectau wedi'i ymgorffori yn eu gwaith, er mwyn manteisio ar hyn mewn prosiectau yn y dyfodol.
19. Codwyd cwestiwn ynghylch statws y Parc Cenedlaethol arfaethedig o dan y Llywodraeth newydd; fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i drafod â'r Gweinidog newydd eto. Maes gwaith arall a godwyd oedd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) morol, gyda Llywodraeth newydd yn ei lle. Byddai CNC yn parhau i drafod hyn gyda LIC, gan ei fod yn faes ystyriaeth allweddol i'r Llywodraeth newydd.
20. Roedd Prif Weithredwr newydd Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) yn canolbwyntio ar gyflawni, gydag awydd i symud ymlaen gyda'r gwaith yn gyflym. Gan weithio gyda LIC ac Ofwat yn dilyn y Comisiwn Dŵr Annibynnol, roedd CNC yn canolbwyntio ar sicrhau y byddai'r camau maent yn eu cymryd yn ysgogi perfformiad cadarnhaol a newid ymddygiad yn DCWW.
21. Trafodwyd yr opsiynau ar gyfer Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog, ac eglurwyd bod y ffocws yn gyson ar ganfod datrysiad mwy cynaliadwy a hirdymor, gan ystyried anghenion ehangach yn hytrach nag un rhan o'r afon yn unig. Byddai cyfarfod yn cael ei gynnal yn yr wythnosau nesaf mewn perthynas â hyn.

Eitem 5. Adroddiad Diweddarau'r Pwyllgorau

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion Pwyllgorau

Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth (EAC) – 12 Mai

22. Nododd yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd yr EAC, fod y Pwyllgor wedi cynnal eu cyfarfod ym mis Mai yn Labordy CNC yn Abertawe, a bod taith addysgiadol o'r labordy a'i waith wedi'i rhoi. Roedd ailstrwythuro'r pwyllgor wedi'i drafod, ac roedd EAC wedi pwysleisio pwysigrwydd cynnal cysylltiad rhwng y Bwrdd a'r Pwyllgor. Roedd anghenion o ran tystiolaeth wedi'u trafod, yn ogystal â'r mater o gapasiti CNC i ddadansoddi'r data. Roedd y mater o berthynas CNC â phrifysgolion wedi'i godi, gan y gallai hynny helpu i fynd i'r afael â'r bwlch o ran capasiti ar gyfer cynhyrchu a dadansoddi data. Cyflwynwyd drafft o gynllun pum mlynedd ar gyfer y gwyddorau cymdeithasol; roedd ffocws y gwyddorau cymdeithasol wedi newid ers datblygiad CNC, ac awgrymwyd bod angen buddsoddi yn y maes hwn.

Y Pwyllgor Cyllid (FC) – 6 Mai

23. Rhoddodd Helen Pittaway, Cadeirydd yr FC, ddiweddariad ar gyfarfod diweddar yr FC, ble trafodwyd y Perfformiad Ariannol, cymeradwywyd y broses gymeradwyo ariannol ar gyfer Trwyddedau Meddalwedd, a chafwyd y diweddariad dwywaith y flwyddyn gan y Swyddfa Rheoli Rhaglenni (PMO) a'r Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contractau (CMSS). Roedd y gyllideb wedi newid ychydig ers y tro diwethaf i'r Bwrdd ei gweld, ac fe wnaeth yr FC gymeradwyo'r newidiadau hyn yn dilyn cymeradwyaeth gan y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (F&CS).
24. Roedd y Rhagolwg wedi'i drafod hefyd yng nghyd-destun strwythur newydd y pwyllgor, a chytunwyd y byddai pob prosiect cyfalaf yn cael ei gyflwyno i'r FC i'w fonitro. Roedd y Strategaeth Gyllid wedi'i chyflwyno yn y cyfarfod hefyd, a byddai hon yn cael ei chyflwyno gerbron y Bwrdd yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC) – 29 Ebrill

25. Tynnodd Dr Pete Fox, Cadeirydd yr FRMC, sylw at y mater allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod diweddaraf yr FRMC, sef cyfraddau disgownt. Wrth i'r manteision erydu dros amser, roedd angen herio Llywodraeth Cymru ynghylch cyfraddau disgownt, gan fod angen ystyried cenedlaethau'r dyfodol.

Pwyllgor Ystâd Tir (LEC) – 7 Mai

26. Rhoddodd yr Athro Calvin Jones, Cadeirydd yr LEC, ddiweddariad i'r Bwrdd ynghylch cyfarfod diweddar yr LEC. Cyflwynwyd yr adroddiadau rheolaidd gan y Pennaeth Stiwardiaeth Tir a'r Pennaeth Datblygu Masnachol Strategol. Ymhlith y materion eraill a drafodwyd roedd y Cynllun Gwerthu Pren a'r Strategaeth Twf a Gwerth. Codwyd dau fater yn ystod y ddwy eitem; un ohonynt oedd bod cyfyngiadau ar CNC wrth gydymffurfio ag uchelgeisiau a chyfarwyddiadau LIC. Yr ail oedd bod angen mesurau cyfannol er mwyn sicrhau bod unrhyw werth y mae CNC yn ei ddarparu yn cael ei gofnodi, a chytunodd y Bwrdd fod angen y rhain. Gallai'r rhain hefyd helpu wrth lloïo am gyllid gan LIC.

Fforwm Rheoli Tir Cymru – 9 Mawrth

27. Tynnodd yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru, sylw at fater nad oedd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad. Roedd aelodaeth y Fforwm yn cael ei harchwilio, er mwyn ystyried a ellid ehangu'r aelodaeth i gynnwys sefydliadau fel yr RSPB. Mewn ymateb i ymholiad, eglurwyd bod amrywiaeth eang o safbwyntiau ar y Fforwm ynghylch rhywogaethau sydd mewn perygl.

Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (NAFW) – 7 Mawrth

28. Nododd Lesley Jones, Cadeirydd y Fforwm Mynediad Cenedlaethol, nad oedd unrhyw ddiweddariad pellach gan fod y Bwrdd wedi cael diweddariad ar gyfarfod diwethaf y NAFW yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth. Fodd bynnag, nododd unwaith eto y trafodaethau cadarnhaol a gafwyd yn y gweithdy, gan ymgysylltu ag ystod eang o sefydliadau.

Eitem 6. Adroddiad Perfformiad Cyllid

Cyflwynwyr: Mark Collins, Rheolwr Tîm Cyllid Busnes 2

29. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (F&CS) yr eitem a nodi bod Rob Bell, Pennaeth Cyllid, i ymddeol ym mis Medi 2026.
30. Rhoddodd Rheolwr Tîm Cyllid Busnes 2 drosolwg o'r Adroddiad Perfformiad Cyllid; ymhlith y prif bwyntiau roedd perfformiad ariannol a chrynodeb o feysydd ffocws ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Ar y cyfan, roedd y gyllideb wedi cynyddu £1.2m ers mis Ionawr 2026, gan ddod â'r gyllideb derfynol i £294.2m. Roedd y cynnydd yn gysylltiedig â £4.4m o Gymorth Grant LIC, a gafodd ei wrthbwysio gan ostyngiadau o £3.2m mewn incwm masnachol, incwm o falansau taliadau, ac incwm Ewropeaidd ac allanol.
31. Roedd y perfformiad yn erbyn y rhagolwg diwethaf yn dda, ac roedd 99% o'r rhagolwg arfaethedig wedi'i gwario yn ogystal â 98% o'r gyllideb wreiddiol. Y Rhaglen Argyfwng Natur a Hinsawdd (NaCE) oedd yr unig eithriad, gyda thanwariant o £1.5 miliwn. Roedd adolygiad wedi'i gynnal a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r ET er mwyn archwilio'r rhesymau dros y tanwariant.
32. Roedd incwm yn uwch na'r proffil ar ddiwedd mis Mawrth, gyda'r prif amrywiad yn gysylltiedig ag incwm masnachol, a oedd yn cynnwys cynnydd mewn incwm o werthiannau pren, ynni gwynt y gellir ei ildio ac incwm o Ystâd CNC. Nodwyd y bu gwelliant o ran gallu CNC i ragweld eleni.
33. Roedd y tîm wedi cwblhau eu sefyllfa adroddadwy, a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r FC ddechrau Mehefin.
34. O ran y gwersi a ddysgwyd a meysydd ffocws CNC ar gyfer eleni, roedd y rhain yn cynnwys symud yn nes at y strwythur fforddiadwy, bod yn llai parod i osgoi pob risg o ran y lefel gor-raglennu, adolygu'r lefel a bennwyd ar gyfer rhaglenni cyfalaf

Llifogydd a NaCE, a gweithio ar gyflawni Cynllun Arloesi'r Tîm Cyllid. Byddai'r tîm yn adolygu perfformiad y llynedd gyda phob cyfarwyddwr i nodi unrhyw duedd optimistaeth a ble gellid gwella ymddygiad cyffredinol. Cytunodd y Bwrdd eu bod yn fodlon cymeradwyo'r Adroddiad Perfformiad Cyllid ar gyfer diwedd y flwyddyn.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd yr Adroddiad Perfformiad Cyllid ar gyfer diwedd y flwyddyn.

35. Esboniodd Cyfarwyddwr Gweithredol F&CS fod y proffil gwariant yn amrywio, ond rhoddodd sicrwydd bod CNC wedi gwario a chyflawni yn unol â'r cyllidebau yn y flwyddyn ariannol hon. Trafododd y Bwrdd oblygiadau methu â chyrraedd targedau, a chyflwyno mecanweithiau i sicrhau bod timau arwain a rheoli yn cael gwybod yn gynnar am achosion posibl o danwariant. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y ffaith bod y tîm Cyllid wedi rhoi darlun clir o faterion yn ymwneud â chyllidebau, a bod y timau wedi cael data manwl ar berfformiad cyllidebol.
36. Nodwyd bod yr Adroddiad wedi cael derbyniad da yn y Pwyllgor Cyllid, gan fod aelodau wedi cael gwybodaeth dda drwy gydol y flwyddyn a bod deialog agored barhaus wedi bod gyda Llywodraeth Cymru. Ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, cytunodd y Bwrdd y dylid ymrwymo cyllid yn gynnar i baratoi ar gyfer llywodraeth newydd.
37. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol fod archwiliad manwl o ansefydlogrwydd a rhagolygon y farchnad bren ar y gweill, gan gymharu â'r arferion yn Lloegr a'r Alban ac ystyried darpariaethau cytundebol i reoli'r gadwyn gyflenwi.

Eitem 7. Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes Ch4

Noddwr: Ceri Davies, Prif Weithredwr

Cyflwynwyr: Arweinwyr Amcanion Llesiant; Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a PMO

38. Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr eitem. Cyflwynodd Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r PMO Ddangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes ar gyfer Ch4, gan dynnu sylw at y canlyniadau cryf yn gyffredinol a newyddion cadarnhaol o ran cysondeb ar adroddiadau a rhagolygon Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs). Roedd statws Coch, Oren a Gwyrdd (RAG) yn Adroddiad Perfformiad diwedd y flwyddyn yn dangos 18 dangosydd Gwyrdd, naw Oren ac un Coch; roedd y rhan fwyaf o'r amcanion ar y trywydd iawn, ac adroddwyd yn glir ar feysydd ble roedd angen gwella, yn enwedig o ran y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) a lleihau llygredd.
39. O ran Dangosydd Perfformiad Allweddol y CFfC, roedd gwaith recriwtio sylweddol wedi'i wneud; fodd bynnag, bu anawsterau o ran dod o hyd i ymgeiswyr a oedd â sgiliau Cymraeg a'r sgiliau technegol angenrheidiol ar gyfer Swyddog Amgylchedd. Roedd gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer rôl mor wledig, ac mae'r tîm wedi bod yn ystyried strategaethau recriwtio a hyfforddi amgen.

40. Yn yr Adroddiad Perfformiad Mewnol, cafwyd cynnydd o 38% yn nifer y Ceisiadau Mynediad at Wybodaeth, a arweiniodd at newid o Wyrdd i Oren ar ddiwedd y flwyddyn. Parhaodd y tîm i weithio ar wella'r cynnwys ar y wefan er mwyn ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi'n aml, ac i gyfeirio defnyddwyr at wybodaeth hunanwasanaeth.
41. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai mesurau yn ymwneud ag adrodd ar ganiatâd cynllunio yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol. Nodwyd bod tua 80% o'r ymatebion wedi'u darparu o fewn y terfyn amser statudol; fodd bynnag, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Cenedlaethol (NatOps) fod ei dîm yn gweithio i gynyddu'r ffigur hwn.
42. Trafododd y Bwrdd Amcan Llesiant 3: KPI Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Lle fod gwaith yn mynd rhagddo, gyda'r duedd gyffredinol yn canolbwyntio ar fod CNC yn mynychu mwy o ddigwyddiadau lefel uchel a chanddynt effaith sylweddol o ran lleihau llygredd; fodd bynnag, roedd llai o waith yn canolbwyntio ar gamau ataliol. Roedd adnoddau pellach i ddod i ariannu rheolwr prosiect i ganolbwyntio ymdrechion ar Amcan Llesiant 3.
43. Trafododd y Bwrdd recriwtio rheolwyr prosiect i ddechrau cyflawni'r 'Llwybr i Wyrdd', ond holwyd a fyddai wedi bod yn bosibl rhagweld a nodi'r materion hyn yn gynharach. Trafododd y Bwrdd a ellid defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r KPIs hynny a oedd eisoes yn Wyrdd. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod arweinwyr Amcanion Llesiant wedi archwilio nifer o opsiynau i gyflawni eu Llwybr i Wyrdd, ond roedd yn cydnabod bod angen newid diwylliannol i annog ffyrdd newydd o wario cyllidebau drwy recriwtio, trefniadau dros dro, addysg a phrentisiaethau.
44. Croesawodd y Bwrdd y drafodaeth a chymeradwyodd Ddangosfwrdd Perfformiad Ch4.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd Ddangosfwrdd Perfformiad Ch4.

Eitem 8. Ansawdd Dŵr (Amcan Llesiant 3)

Noddwr: Lyndsey Rawlinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Lle; Sian Williams, Pennaeth Gogledd-orllewin Cymru; Mary Lewis, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol; Huwel Manley, Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru

Cyflwynwyr: Becky Favager, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu; Rhian Jardine, Pennaeth DPAS a Gwasanaethau Morol; Rhian Thomas, Rheolwr Dŵr a Natur Cynaliadwy; Gareth Davies, Rheolwr Gweithrediadau, De-orllewin Cymru; Matthew Lowe, Arweinydd Tîm, Tîm yr Amgylchedd; Jonathan Jones, Arweinydd Tîm, Tîm yr Amgylchedd

45. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Lle yr archwiliad manwl i Amcan Llesiant 3 – Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf, gan ganolbwyntio ar ddŵr, ar y cyd â chyflwyniad yn canolbwyntio ar leoedd De-orllewin Cymru, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar yr effeithiau'n ymwneud ag ansawdd dŵr. Tynnwyd sylw

at ddŵr fel elfen ganolog yn y Cynllun Corfforaethol, sy'n croesi'r holl Amcanion Llesiant.

46. Adroddodd Pennaeth Rheoli Adnoddau Naturiol, er bod gwelliannau wedi'u gwneud dros y 30 mlynedd diwethaf o ran ansawdd dŵr – yn sgil deddfwriaeth, rheoleiddio a datblygiadau technolegol – fod heriau sylweddol o hyd. Byddai problemau yn ymwneud â phrinder dŵr yn gwaethygu problemau o ran ansawdd dŵr. Deallwyd bod craffu cynyddol gan y cyhoedd, y cyfryngau a gwleidyddion. Nodwyd y duedd at welliannau a nodwyd yn Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.
47. Tynnodd y Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Dŵr sylw at nifer y digwyddiadau a gafwyd ym mhob sector, ac eglurodd y gwahaniaethau yn y modd roedd digwyddiadau llygredd yn cael eu hadrodd o gymharu â digwyddiadau eraill. Sicrhawyd y Bwrdd bod data'n cael ei ddefnyddio i olrhain tueddiadau ac effeithiau amgylcheddol cronus digwyddiadau llygredd. Roedd angen pwyslais cryf ar atal yn hytrach nag ar orfodi adweithiol. Roedd perfformiad y cwmnïau dŵr, yn enwedig Dŵr Cymru, wedi dirywio, gyda chynnydd yn nifer a difrifoldeb digwyddiadau llygredd. Parhaodd camau gorfodi yn ôl yr angen; fodd bynnag, atal oedd y brif flaenoriaeth. Yn ogystal â datblygiadau rheoleiddiol ehangach, a dirwy o £44.7 miliwn gan Ofwat a allai, pe bai'n cael ei gweithredu, gefnogi buddsoddiadau seilwaith yn y dyfodol. Er y byddai heriau sylweddol o hyd o ran cyflawni, roedd meysydd i'w gwella wedi'u nodi ac roedd gwaith yn mynd rhagddo ar gyfer yr adolygiad nesaf o brisiau yn 2029 (PR29).
48. Croesawyd y cyfleoedd a ddeilliodd o Adroddiad y Comisiwn Dŵr Annibynnol ac o gynigion Papur Gwyrdd LIC, yn enwedig o ran diwygio rheoleiddio, gwella cynllunio systemau a gorfodi cryfach. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n agos gyda LIC a'r Rheoleiddiwr Economaidd arfaethedig i gefnogi dull mwy integredig, cyfannol a strategol ar gyfer cynllunio dŵr, ac i roi'r sector dŵr yn ôl ar y trywydd iawn.
49. Roedd llygredd maethynnau yn broblem sylweddol o hyd, gan gyfrannu at fethiannau o ran cyflwr, dirywiad ecolegol a chyfyngiadau ar ddatblygu, gyda thua 16,000 o geisiadau cynllunio wedi'u gohirio ar hyn o bryd. Roedd CNC yn bwrw ymlaen gyda chymau rheoleiddiol wedi'u targedu ac yn datblygu dau Gynllun Adfer Maethynnau ar gyfer Dalgylchoedd yn Ne-orllewin Cymru i gefnogi cydymffurfiaeth ac adferiad amgylcheddol hirdymor.
50. Rhoddodd Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru drosolwg o dirwedd amrywiol yr ardal, gan dynnu sylw at heriau rhanbarthol allweddol a oedd yn cynnwys pwysau amaethyddol, yn enwedig mewn ardaloedd â dwysedd uchel o dda byw, er enghraifft ardal y Cleddau, ble roedd lefel cydymffurfiaeth ffermydd yn parhau i fod yn is na 50%. Amlinellwyd y materion yn ymwneud â llygredd maethynnau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), ac amlygwyd pwysigrwydd cryfhau perthnasoedd â ffermwyr a manteisio ar ddylanwad y gadwyn gyflenwi.

51. Crynhowyd un prif fater: methiant sylweddol yn y seilwaith oedd hyn, yn deillio o brif bibell godi Dŵr Cymru ym Marlas, a arweiniodd at ollyngiadau carthion ar nifer o achlysuron. Roedd datrysiad dros dro uwchben y ddaear yn cael ei roi ar waith nes byddai cyllid ar gael yn y cyfnod nesaf o'r Cynllun Rheoli Asedau (AMP) ar gyfer datrysiad parhaol o dan y ddaear. Cododd y Bwrdd bryderon ynghylch asedau tebyg eraill sy'n heneiddio, cyfyngiadau ar fuddsoddi, a chapasiti cwmnïau dŵr i ymateb yn effeithiol. Sicrhawyd bod cwmnïau dŵr yn cael eu hannog i reoli risgiau ac i gynnal gwaith sganio'r gorwel.
52. Croesawodd y Bwrdd y buddsoddiad o £1.7 miliwn o gyllid parhaol drwy Gymorth Grant (GiA) a £3.4 miliwn o gyllid dros dro gan LIC i gefnogi gwelliannau ym meysydd llywodraethu, cydymffurfio, data a dulliau integredig ar gyfer dalgylchoedd. Fodd bynnag, pwysleisiodd y Bwrdd fod ansawdd dŵr yn flaenoriaeth genedlaethol a oedd yn gofyn cyllid hirdymor parhaus, cefnogaeth ddeddfwriaethol gryfach a dull system gyfan sy'n cysylltu defnydd tir, cynhyrchu bwyd, bioamrywiaeth a newid hinsawdd. Croesawodd y Bwrdd y canlyniadau yr oedd CNC yn ceisio eu cyflawni, ynghyd â'r cyfeiriad.
53. Cydnabuwyd bod cyfyngiad ar y gallu i gyflawni gwelliannau yn sgil cyfyngiadau deddfwriaethol, diffyg buddsoddi hanesyddol gan gwmnïau dŵr a phwysau o ran adnoddau. Atgyfnerthwyd yr angen i symud ymhellach tuag at atal, cydweithio gwell ar draws sectorau, a gwell penderfyniadau ar sail data. Er bod cyfleoedd megis masnachu maethynnau ac atebion seiliedig ar y farchnad yn bodoli, cydnabuwyd y byddai adferiad amgylcheddol yn cymryd amser, gan fod angen amser i faethynnau amaethyddol hanesyddol yn y pridd ddraenio.
54. Croesawyd y cyflwyniad, a thrafodwyd y gost economaidd ac effeithiau cymdeithasol materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr, gan gynnwys gwerth sylweddol y datblygiadau sydd wedi'u gohirio ar hyn o bryd. Mynegodd y Bwrdd eto bryderon ynghylch setliad AMP y diwydiant dŵr a'r gallu i gyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael. Croesawyd y cyllid a gafwyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer Prosiect Teifi. Roedd cymhlethdodau o ran cymharu Cynlluniau Rheoli Dalgylchoedd Integredig ar draws Cymru, a byddai dangos cefnogaeth i randdeiliaid yn bwysig.
55. Anogodd y Bwrdd ganolbwyntio ar gamau gweithredu effaith uchel, partneriaethau cryfach ac ymgysylltu parhaus â'r llywodraeth, diwydiant a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau gwelliannau ystyrlon a pharhaol; yn ogystal â'r angen am ddull cytbwys sy'n cyfuno cymhellion a gorfodaeth. Tynnwyd sylw at ddylanwad cadwyni cynhyrchu a chyflenwi – ac yn arbennig rôl archfarchnadoedd – fel sbardun allweddol i newid. Roedd gweithdy diweddar i randdeiliaid amaethyddol yn gam cyntaf ymlaen.
56. Trafododd y Bwrdd y mater o reoleiddio ffermydd fel busnesau ond roedd yn deall natur unigryw rhai cymunedau o ffermydd teuluol; fodd bynnag, roedd yn rhaid cadw at safonau amgylcheddol, a gallai'r gadwyn gyflenwi fod yn fwy heriol. Awgrymwyd arferion gorau ar gyfer masnachu maethynnau i gynorthwyo gyda datblygu cynaliadwy, ond byddai hyn yn cymryd amser.

57. Roedd gan Blaid Cymru strategaeth fwyd genedlaethol yn eu cynllun ar gyfer y 100 diwrnod cyntaf, ac roedd CNC wedi cynnig cefnogaeth. Awgrymodd y Cadeirydd gysylltu â *The Grocer*, ac y gallai ef ysgrifennu at yr Institute of Grocery Distribution (IGD). Roedd y tîm yn gweithio gyda LIC ar Bolisi Adnoddau Naturiol i sicrhau ystyriaeth ehangach o ddefnydd tir, a byddai cyfleoedd newydd yn codi gyda Llywodraeth newydd.
58. Roedd disgwyliadau'r sector dŵr wedi newid dros y deng mlynedd diwethaf, ac roedd angen dealltwriaeth gymdeithasol fyd-eang. Awgrymwyd y gallai fod yn fuddiol bod â chynrychiolydd ar gyfer yr agwedd fasnachol ar y Bwrdd. Roedd angen deall y cyfyngiadau presennol, a beth arall y gellid ei wneud – a'i wneud yn wahanol – pe bai mwy o adnoddau ar gael. Rhybuddiwyd yn erbyn ymgymryd â gormod o weithgareddau, ac awgrymwyd y dylid canolbwyntio yn hytrach ar y rhai hynny a fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf, a hynny'n effeithiol; gellid hefyd ystyried ffordd wahanol o weithio. Croesawodd y tîm ymgysylltiad y Bwrdd, a byddai'r adborth yn cael ei ystyried wrth lunio cynlluniau i fynd i'r afael â'r mater yn ymwneud ag ansawdd dŵr.

Eitem 9. Sut wnaethom ni yn y cyfarfod hwn?

Noddwr: Neil Sachdev, Cadeirydd

59. Dychwelodd y Cadeirydd at yr eitem hon ar ddiwedd Cyfarfod Preifat y Bwrdd, a chytunodd y Bwrdd fod y Cyflwyniad Lle ar Amcan Llesiant 3 yn ddiddorol; cytunwyd hefyd bod angen newid systemig o ran da byw a'r dull cynhyrchu.
60. Tynnodd y Bwrdd sylw at yr effaith gadarnhaol o fod ar gael ac yn weladwy i gydweithwyr drwy ymweld â swyddfeydd a chyfarfod â chydweithwyr.

Eitem 10. Unrhyw Fater Arall

61. Nid oedd unrhyw faterion eraill.

Cloi'r Cyfarfod Cyhoeddus

Cofnodion o Gamau Gweithredu a Phenderfyniadau'r Cyfarfodydd Bwrdd Cyhoeddus

Log Gweithredu - Cyfarfodydd y Bwrdd										
Rhif Cam Gweithredu	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif Eitem	Rhif Paragraff	Noddwr y Papur	Cam gweithredu	Perchennog	Dyledus	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
11	Cyhoeddus	18/03/2026	8	41	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwas. Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a Swyddfa Rheoli Rhaglenni (PMO) i anfon y WBO4 drafft at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.	Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni	20/05/2026	Cwblhawyd	Cyfarfu Ceri, Rachael a Sarah ar 28/04/2026.

12	Cyhoeddus	20/05/2026	4	9	Ceri Davies, Prif Weithredwr	CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu Rheoleiddio at Ragolwg y Bwrdd.	Ysgrifenyddiaeth:	20/05/2026	Cwblhawyd
----	-----------	------------	---	---	---------------------------------	---	-------------------	------------	-----------

Log Penderfyniadau - Cyfarfodydd y Bwrdd

Rhif y Penderfyniad	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif Eitem	Rhif Paragraff	Noddwr y Papur	Penderfyniad
33	Cyhoeddus	20/05/2026	6	34	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd yr Adroddiad Perfformiad Cyllid ar gyfer diwedd y flwyddyn.
34	Cyhoeddus	20/05/2026	7	45	Ceri Davies, Prif Weithredwr	PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd y Dangosfwrdd Perfformiad ar gyfer Chwarter 4.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	29 Gorffennaf 2026
Teitl y Papur:	Adroddiad y Prif Weithredwr (Sesiwn Gyhoeddus)
Cyfeirnod y Papur:	26-07-B01
Cyflwynwyd y papur gan:	Ceri Davies, Prif Weithredwr
Diben	Gwybodaeth a thrafodaeth:
Crynodeb	Mae'r papur yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar faterion cyfredol.

Cyflwyniad

1. Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, rydym wedi bod yn gosod y sylfeini ar gyfer perthynas gref â'r Llywodraeth Cymru newydd (LIC). Mae'r Cadeirydd a minnau wedi cael cyfarfod cychwynnol cadarnhaol â Llyr Gruffydd AS, y Gweinidog dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd, ac rydym wedi gweithio'n agos gyda'n tîm Nawdd i ddeall ei flaenoriaethau cyntaf. Gwahoddwyd y Gweinidog i ymuno â ni yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru eleni ar gyfer trafodaeth banel, ac ymunodd Adam Price AS, y Gweinidog Menter, Cysylltedd ac Ynni, â ni ar ein stondin ar gyfer lansiad ein Strategaeth Twf a Gwerth newydd.
2. Ar ôl yr etholiad, ysgrifennwyd at holl Aelodau'r Senedd i gyflwyno CNC a'n Hamcanion Llesiant, ac i esbonio ein hymagwedd seiliedig ar le at waith gweithredol. Ein Penaethiaid Lle fel arfer fydd y pwynt cyswllt cyntaf i ASau, ac maen nhw eisoes yn meithrin y perthnasoedd hynny –llawer mwy ohonynt bellach, ers ehangu'r Senedd yn yr etholiad hwn. Roeddem yn falch iawn o gwrdd â nifer dda o ASau yn nigwyddiad *Y Farchnad* ym mis Mehefin, lle gwnaethom ateb cwestiynau a rhoi sylw i feysydd ffocws a phryderon cynnar. Mwy am hyn isod.
3. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae ein timau gweithredol ac ymateb i ddigwyddiadau wedi bod yn gweithio'n galed i ymdrin ag effeithiau'r tywydd eithriadol o boeth a sych ledled Cymru. Mae'r rhain yn amrywio rhwng delio â thanau gwyllt sylweddol ac effeithiau gwaethygol llygredd yn ein hafonydd pan fo'r llif yn isel, a chefnogi'r Gwasanaeth Tân ac Achub a gwasanaethau brys eraill wrth iddynt ymdrin ag effeithiau trasig marwolaethau aelodau'r cyhoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y tir a reolir gennym. Rhagwelir y bydd y tywydd cynnes yn parhau, gydag ond ychydig o law, felly byddwn yn parhau i fonitro ein safleoedd ac yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cyhoedd i annog ymddygiad diogel a chyfrifol.

4. Ddiwedd mis Mai, cefais fy nghyfarfod rheolaidd â James Jesic yn Hafren Dyfrdwy. Cefais gyfarfod pellach hefyd ag Alwen Williams o Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'n siŵr bod aelodau'r Bwrdd yn ei chofio o'n sesiwn drafod ym mis Ebrill am ddatblygu yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Cyfarfu Lyndsey Rawlinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (Lle), a minnau ag Uchelgais Gogledd Cymru eto ddechrau mis Gorffennaf i gynnal trafodaeth cynllunio gweithredu ehangach ar gyfleoedd am ymagwedd fwy cydweithredol ac iddi fwy o ffocws.
5. Dechreuodd mis Mehefin gyda digonedd o gydweithio â chwaer-asiantaethau, gan gynnwys cyfarfod y Cyrff Cadwraeth Natur Statudol (CCNS), a gynhaliwyd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, a chyfarfod y Pum Asiantaeth yn Llundain. Roedd y Cadeirydd a minnau'n falch iawn o gynnal cyfarfod y CCNS a chroesawu ein cymheiriaid o Natural England, NatureScot, Asiantaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon (NIEA) a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Roedd ein hagenda yn cynnwys dulliau newydd o adfer natur, heriau a chyfleoedd cyflawni er budd natur a hefyd er twf economaidd, a myfyrdod ar safbwyntiau Ewropeaidd a rhyngwladol. Aethom hefyd ar ymweliad â Choedwig Ffosil Brymbo, safle treftadaeth ddiwydiannol diddorol a chanddo goed hynafol ffosiledig oddi tano, am daith gyda Nicola Sawford, Prif Weithredwr Stori Brymbo.
6. Cynhelir cyfarfod y Pum Asiantaeth bob chwe mis ac mae'n cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd (EA), Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA), NIEA ac Asiantaeth Diogelu Amgylchedd Iwerddon (EPA). Cynhaliwyd cyfarfod mis Mehefin gan yr EA ym Mharc Naturiol Camley Street, gwarchodfa natur ac ynddi gynefinoedd coetir, glaswelltir a gwlyptir a redir gan Ymddiriedolaeth Natur Llundain. Ymunodd Lyndsey Rawlinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (Lle), â mi ar gyfer agenda a oedd yn amrywio rhwng troseddau gwastraff a deallusrwydd artifisial a chynllunio'r gweithlu. Mae ein gallu i gysylltu'n agos ac alinio â'n chwaer-asiantaethau yn hanfodol ar adeg lle bo ymagweddau polisi yn newid a phwysau amgylcheddol yn cynyddu o hyd.
7. Cefais gyfarfodydd hefyd â Simon Bowen a Simon Roddy, y naill yn Gadeirydd a'r llall yn Brif Weithredwr Great British Energy - Nuclear (GBE-N), ynglŷn â gorsaf niwclear newydd Wylfa, a gafodd ei henwi'n ddiweddar yn Orsaf Bŵer Gwyndod. Mae Llywodraeth y DU yn ystyried ei hagenda niwclear yn flaenoriaeth genedlaethol ac mae disgwyliad clir i reoleiddwyr y sector weithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig, gan sicrhau prosesau symlach a rheoleiddio cymesur. Mae Martin Cox, ein Pennaeth Gweithrediadau ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru, yn arwain y maes gwaith hwn sy'n gynyddol brysur i CNC.
8. Euthum i gyfarfod y Cyngor Partneriaeth yn gynnar ym mis Mehefin, ochr yn ochr â Louise White, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Fflyd a Chyfleusterau. Mae'r cyfarfod rheolaidd hwn yn gyfle gwerthfawr imi gwrdd â'n cynrychiolwyr o'r Undebau Llafur (TU) a thrafod agweddau sy'n peri pryder, ac rwyf bob amser yn ddiolchgar am eu hymgyssylltiad adeiladol, eu mewnwelediadau a'u hadborth defnyddiol. Roedd ein hagenda yn cynnwys eitemau ar gynllunio'r gweithlu, newidiadau cyfarwyddiaeth, ein strategaeth llety a diweddariad fflyd / cerbydau trydan. Ers hynny, mae'r Undebau Llafur wedi cyflwyno eu hawliad cyflog ar gyfer 2026/27, ac er ein bod yn disgwyl am gylch gwaith tâl gan LIC, rydym wedi sicrhau bod dyddiadau wedi'u nodi yn y dyddiadur i gychwyn negodi cyn gynted ag y bo'r gofynion hynny ar gael inni.

9. Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd gyda'n gwaith Gwrth-hiliaeth. Ym mis Mehefin, cynhaliodd y Tîm Gweithredol a minnau gyfarfod cychwynnol â chydweithwyr du ac ethnig leiafrifol i gael dealltwriaeth well o'u profiad o weithio yn CNC. Rhoddodd hyn fewnwelediadau gwerthfawr a chychwyn sgwrs fydd, gobeithio, yn agored ac yn adeiladol, y gall pob un ohonom ddysgu ohoni. Byddwn yn datblygu ein cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth gyda chydweithwyr dros yr haf.
10. Ym mis Gorffennaf, cynhaliwyd sesiwn weithredol arall ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, a oedd yn cynnwys ymweliadau safle â'r Migneint, Cwm Penmachno a Moel Marchyrau yn Eryri, i adolygu gwaith ar y cyd i adfer mawndiroedd ac afonydd. Gwnaethom hefyd drafod dull yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol o ffermio mewn ffordd sy'n gyfeillgar i natur, a chreu coetiroedd. Roedd yn gyfle gwych arall i feithrin perthnasoedd rhwng ein timau gweithredol a dysgu'r naill oddi wrth y llall. Roedd rhai o'r prif gasgliadau yn cynnwys datblygu gweledigaeth ar gyfer ein gwaith ar y cyd ar y tiroedd comin, ac edrych ar fecanweithiau eraill i gyllido gwaith i adfer natur, fel mawndiroedd, gan gynnwys cyllid y sector preifat.
 11. Yn ystod mis Gorffennaf, rwyf hefyd wedi cael fy nghyfarfodydd rheolaidd â John Mercer o Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru; Ian Rickman o Undeb Amaethwyr Cymru; Gail Davies-Walsh o Afonydd Cymru; Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol; Roch Cheroux o Dŵr Cymru a Chris Walters o Ofwat. Gyda'r Cynghorydd Andrew Morgan a Paul Mee o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, mae ein gwaith ar y cyd i reoli dŵr a thir yn mynd rhagddo'n rhagorol er gwaethaf yr heriau cynyddol a achosir gan effeithiau'r newid hinsawdd.
 12. Euthum i'r cyfarfod Prif Weithredwyr Cyrff Cyhoeddus, a gynhaliwyd gan LIC, ym mis Gorffennaf. Roedd yr agenda yn cynnwys trafodaeth fanwl ar y Llywodraeth newydd a ffyrdd o weithio dan arweiniad Judith Padget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Strategaeth, cyflwyniad a gweithdy ar barhad busnes os ceir ymosodiad seiber, a gwybodaeth am ailsefydlu'r Ysgol Lywodraethu Genedlaethol. Bydd y corff hwn a sefydlir o dan Lywodraeth y DU yn cynnig rhaglen hyfforddi i uwch weision sifil, gan drafod materion cyfoes fel deallusrwydd artiffisial ac arloesi ochr yn ochr ag arweinyddiaeth, datblygu polisi, cyllid a chyflawni rhaglenni.
 13. Euthum hefyd i uwchgynhadledd Biodiversity + Business Live yng Nghaeredin, a gynhaliwyd ar y cyd gan NatureScot, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Fforwm Busnes a Bioamrywiaeth y DU. Pwrpas y digwyddiad hwn oedd hyrwyddo cydweithredu a chydarweinyddiaeth ar golli bioamrywiaeth a'i ffocws oedd trosi mewnwelediad byd-eang yn gamau strategol i fusnesau. Pleser o'r mwyaf oedd cael cymryd rhan mewn trafodaeth banel ar uchelgais busnes o ran natur a chyfleoedd i weithredu ar y cyd. Defnyddiais fy amser yng Nghaeredin i gwrdd â Paul Lowe o Scottish Forestry, a Nicole Paterson o SEPA.
 14. Un o uchafbwyntiau ein blwyddyn, wrth gwrs, yw Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. Treuliais dri diwrnod yn y sioe a mwynhau amserlen o ddigwyddiadau ar stondinau a chyfarfodydd â rhanddeiliaid. Diolch yn fawr iawn i'r cydweithwyr a roddodd groeso mor gynnes ac a wnaeth ein stondin mor ddiddorol eleni, ac a dreuliodd eu hamser yn siarad ag aelodau o'r cyhoedd am ein gwaith. Rwyf bob amser mor falch o'n hangerdd, ein proffesiynoldeb a'n hymdeimlad o bwrpas ar yr adegau hyn. Mae'r gwaith cynllunio a'r ymdrech er mwyn sicrhau ein presenoldeb yn y sioe yn aruthrol, felly diolch hefyd i'n tîm Digwyddiadau a Chyfathrebu ac i bawb sydd wedi cyfrannu at wneud ein stondin mor ddiddorol ac addysgiadol. Ac rwy'n ddiolchgar

hefyd i aelodau'r Bwrdd am fod yn bresennol yn y sioe a chynrychioli CNC: ni fyddai wedi bod yn bosib i'r Cadeirydd a minnau wneud y cyfan ein hunain.

Diweddariadau Strategol

Prosiect Morlyn Abertawe

15. Aethom i gyfarfod cychwynnol â thîm y prosiect ynglŷn â chynnig am hwb ynni a diwydiannol wedi'i gyllido'n breifat, yn cynnwys gwaith cynhyrchu solar, dyfeisiau storio batris a batris yn y tymor byr, ochr yn ochr â chynnig morlyn llanw tymor hwy. Y prif ystyriaethau i CNC yw cyfyngiadau ar dirlenwi, gofynion trwyddedu ac effeithiau amgylcheddol, yn enwedig o ran elfen y morlyn, sy'n parhau i fod yn gynnig risg uchel ar gyfer y tymor hir. Mae tîm y prosiect wedi sefydlu bwrdd crwn rhanddeiliaid i gefnogi datblygiad ac ymgysylltiad â'r prosiect, gyda CNC yn cymryd rhan fel aelod o Ford Gron y Morlyn Llanw, dan gadeiryddiaeth Torsten Bell AS.

LanzaTech yn Atal Datblygiad

16. Mae LanzaTech wedi cadarnhau na fydd yn bwrw ymlaen â chyfleuster Tanwydd Hedfan Cynaliadwy DRAGON I ym Mhort Talbot, ac mae hefyd wedi rhoi'r gorau i ddatblygu ei gyfleuster cynhyrchu ethanol arfaethedig yn Aberdaugleddau. Yn ei ddatganiad cyhoeddus, cyfeiriodd y cwmni at gyfuniad o economeg y safle, ansicrwydd o ran polisi a chost uchel hydrogen gwyrdd fel y prif resymau dros ei benderfyniad.
17. Roedd cyfleuster Port Talbot wedi datblygu'n un o'r enghreifftiau amlycaf o'r modd y gallai datgarboneiddio diwydiannol helpu i wrthbwysu'r effeithiau economaidd yn gysylltiedig â chau ffwrneisi chwyth Tata Steel. Roedd disgwyl i'r prosiect greu mwy na 150 o swyddi ac roedd wedi cael ei hyrwyddo fel elfen bwysig o economi werdd yr ardal i'r dyfodol.
18. Yn dilyn hyn, mae'r cwmni wedi canolbwyntio ar ddatblygu DRAGON II yn Humberside, lle'r ymddengys fod seilwaith diwydiannol presennol a manteision clystyru wedi gwella'r achos o blaid buddsoddi yno. Dywedodd LanzaTech ei fod wedi rhoi'r gorau i ddatblygu cyfleusterau cynhyrchu ethanol drwy ddefnyddio carbon deuocsid wedi'i ddal a hydrogen gwyrdd gan nad yw gwneud hynny'n economaidd hyfyw ar hyn o bryd. Dyma un o'r enghreifftiau cliraf hyd yma o ddatblygwr mawr yn nodi'n gyhoeddus fod problemau gydag agweddau economaidd hydrogen wedi rhoi terfyn ar brosiect.
19. Ac ystyried nifer y llwybrau datgarboneiddio diwydiannol sy'n dod i'r amlwg sy'n dibynnu ar hydrogen fforddiadwy, gallai hyn greu goblygiadau sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i gynhyrchu tanwydd hedfan cynaliadwy, a gallai effeithio ar ragdybiaethau ehangach sy'n sail i strategaethau datgarboneiddio rhanbarthol. Roedd y prosiect wedi elwa ar oddeutu £25 miliwn o gymorth gan Lywodraeth y DU yn ystod y gwaith datblygu. Yn ei hanfod, pwrpas cyllid datblygu yw cefnogi datblygiadau arloesol, ac mae risg o fethiant yn gysylltiedig â hynny. Byddwn yn parhau i gysylltu'n agos â LIC a grwpiau Awdurdodau Lleol rhanbarthol i ddeall unrhyw oblygiadau o ran parhau i fuddsoddi arian cyhoeddus mewn rhaglenni datgarboneiddio diwydiannol a thwf gwyrdd.

Cynghori PEDW ar Gynlluniau Adfer Maetholion Dalgylch

20. Yn ddiweddar, aethom i sesiwn Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i archwilio maetholion a Chynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Benfro. Cyflwynwyd ein cynigion ar gyfer Cynlluniau Adfer Maetholion Dalgylch, gan ymdrin ag ymholiadau'r arolygwyr ynghylch rôl y cynlluniau hyn, a sut y gallant gyfrannu at ddull integredig o ystyried cynigion datblygu a allai arwain at fewnbynnu maetholion (gan integreiddio elfennau adfer a lliniaru'r Rheoliadau Cynefinoedd).
21. Cafwyd derbyniad da i'n cynlluniau, ynghyd â dull hyblyg o ddefnyddio naill ai niwtraliaeth maetholion (y dull presennol) neu ddull integredig, sy'n cydbwysu camau lliniaru ac adfer gan anelu at darged adfer i'r Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r dull olaf ac wedi llunio datganiad safbwynt i PEDW yn cyfleu hynny. Mae hyn yn arwydd cadarnhaol y bydd ein dull o gymorth i fynd i'r afael â phroblemau'n gysylltiedig ag amodau ACAoedd a materion sy'n ymwneud â chyfyngiadau ar ddatblygu.
22. Yn ôl yr amserlen gyfredol, bydd gwybodaeth am gam 1 y Cynlluniau Adfer Maetholion Dalgylch ar gael ar gyfer mis Hydref, a'r cynlluniau llawn ar gael erbyn mis Ebrill 2027.

Diweddariadau Gweithredol

Prosiectau Ynni yng Nghanolbarth Cymru

23. Rydym yn gweld cynnydd mawr mewn prosiectau ynni adnewyddadwy a seilwaith grid cysylltiedig yng nghanolbarth Cymru. Cynigion yng nghanolbarth Cymru yw tua hanner y 70 a mwy o gynigion am ffermydd gwynt ar y tir a geir yn system gynllunio Cymru.
24. Mynegwyd gwrthwynebiad gennym i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) ynghylch cynnig fferm wynt Llest y Gwynt oherwydd pryderon am ddifrod i fawndir, yr effeithiau ar Barc Cenedlaethol Eryri a'r effeithiau ehangach ar y dirwedd. Rydym hefyd yn adolygu fferm wynt arfaethedig Nant y Maen ger Tregaron ar gyfer Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW). Mae'r cynnig yn cynnwys hyd at 27 tyrbîn a chyfleuster storio batri ar safle a chanddo gynefinoedd gwarchodedig, mawn dwfn ac ardal gadwraeth gwiwerod coch. Mae'n sefyll ochr wrth ochr â thair fferm wynt arfaethedig arall, gan greu cyfanswm o 92 o dyrbînau yn yr ardal. Bydd angen cynnal asesiad gofalus o effeithiau sylweddol posibl ar yr amgylchedd.
25. Mae cynigion fferm wynt Esgair Cwmowen a pharc ynni Nant Mithil yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd. Mae rhai problemau wedi cael eu datrys yn Esgair Cwmowen, ond ceir pryderon o hyd ynghylch mawn a gylfinirod sy'n magu. Yn flaenorol roeddem wedi mynegi gwrthwynebiad i'r ACLI ynghylch Nant Mithil oherwydd ei effaith bosibl ar y dirwedd ac ar leoliad Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn ogystal â phryderon ynghylch mawn, safleoedd gwarchodedig a bywyd gwyllt.
26. Rydym yn parhau i gefnogi prosiectau eraill ar draws y rhanbarth, gan gynnwys Waun Maenllwyd, fferm wynt Carno a chynigion seilwaith grid Green GEN Cymru, gan roi cyngor ar amrywiaeth o faterion amgylcheddol. Ein ffocws yw cynllunio datblygu mewn modd cynaliadwy, gan roi ystyriaeth briodol i'r effeithiau ar fawndir, bioamrywiaeth a'r dirwedd.

Fferm Wynt Arnofiol Llŷr

27. Ym mis Mehefin, rhoddwyd Trwydded Forol gennym ar gyfer fferm wynt Llŷr ar y Môr Celtaidd. Mae'r fferm wynt arfaethedig yn cynnwys deg generadur arnofiol (ar lwyfannau), pob un yn cyrraedd uchafswm o 300 metr uwch lefel y môr. Roedd y cais yn gymhleth iawn ac yn achosi effeithiau sylweddol o safbwynt ecoleg a'r morlun. Yn ogystal â hyn, codwyd pryderon gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ynghylch y rhyngweithio rhwng llwybr y ceblau a Maes Tanio Castellmartin.
28. Mae'r penderfyniad yn enghraifft o gydweithio cydgysylltiedig ar draws timau CNC ac o ymgysylltiad adeiladol ailadroddus â'r datblygwr ac ymgynghoreion eraill. Roedd ein dull o weithredu yn creu cydbwysedd rhwng anghenion datblygu a'r angen i ddiogelu'r amgylchedd, gan gymryd cam pwysig tuag at fynd i'r afael â'r newid hinsawdd. Mae ein Tîm Trwyddedu Morol wedi derbyn canmoliaeth gan y datblygwr ac Is-adran Forol Llywodraeth Cymru.

Amrywio Trwydded Tata Steel

29. Mae angen i CNC barhau i gydlynu'n agos â Tata Steel Port Talbot wrth i'r safle symud drwy gyfnod o drawsnewid diwydiannol a gweithgarwch datgomisiynu graddfa fawr. Mae gwaith i amrywio'r drwydded gyfredol yn mynd rhagddo drwy adolygiad gan gymheiriaid mewnol, ac yn canolbwyntio ar ddiweddarau'r drwydded i adlewyrchu'r broses o gau'r gwaith fesul cam a chael gwared â seilwaith cynhyrchu dur a haearn etifeddol, gan gynnwys y ffwrneisi chwyth a'r gweithrediadau pen trwm cysylltiedig.
30. Ceir cryn ddiddordeb gwleidyddol yn Tata Steel o hyd. Er bod erthygl newyddion diweddar y BBC yn dweud bod oedi o ran y broses drwyddedu, mae ein gwaith yn dal ar y trywydd iawn. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a Tata er mwyn helpu i gyflawni buddsoddiad o £500 miliwn, gan sicrhau aliniad a goruchwyliaeth drwy Grŵp Datgarboneiddio Diwydiannol Llywodraeth Cymru.
31. Ar wahân i hynny, cafwyd tân yn ddiweddar yn ardal Llinell Biclo Tata. Arweiniodd hynny at roi'r gorau i waith y Felin Stribedu Boeth am y tro. Cyflawnodd Tata waith asesu a rhoi mesurau lliniaru ar waith, gan gynnwys trefniadau prosesu amgen yng Ngwaith Dur Llanwern lle'r oedd hen linell ar gael i'w defnyddio yn lle'r un a oedd wedi'i difrodi.

Tanau Diweddar ar Safleoedd Gwastraff

32. Ym mis Ebrill, bu ffrwydrad yn un o'r seiclonau MDF (bwrdd ffibr dwysedd canolig) ar safle Kronospan yn y Waun. Arweiniodd y digwyddiad at ryddhau mwg / llwch, ac aeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r safle. Cawsom ambell adroddiad am ddigwyddiadau gan drigolion lleol. Aeth swyddogion i ymweld â'r safle, ond ni welsant ryw lawer o effeithiau oddi ar y safle, a llwyddwyd i gadw dŵr tân ar y safle, heb ollwng unrhyw ddŵr i'r amgylchedd. Hysbyswyd partneriaid allanol am y digwyddiad, ac mae ein hymchwiliad iddo, ac i achosion sylweddol o dorri amodau trwyddedu tua diwedd 2025, yn parhau.
33. Digwyddodd tân mewn cyfleuster rheoledig a weithredir gan AMG Resources Ltd yn Noc Nevills yn Llanelli, gan fod gwres wedi cronni yn y peiriannau. Roedd y tân wedi'i gyfyngu i ardal fechan ac fe'i diffoddwyd yn gyflym. Ar hyn o bryd mae'r safle yn cael ei

ddosbarthu gennym fel 'Perfformiwr Gwael', ac mewn arolygiad cydymffurfio â thrwydded a gynhaliwyd ddiwrnod cyn y digwyddiad, nodwyd achosion o ddiffyg cydymffurfio yn gysylltiedig â'r drwydded. Mae arolygiadau dilynol ers y tân wedi rhoi cadarnhad pellach o dorri amodau'r drwydded. Mae'r gweithredwr wedi cael dyddiadau terfyn i gyflwyno gwelliannau i seilwaith y safle ac i arferion gweithredol er mwyn mynd i'r afael â'r achosion wrth wraidd y tân a sicrhau bod y safle yn cydymffurfio o'r newydd. Rydym yn dal i ystyried camau gorfodi.

34. Rydym yn parhau i reoleiddio Gwaith Byass AWD Group Ltd ym Mhort Talbot yn dilyn tân ym mis Mai. Caniateir i'r safle dderbyn gwastraff plastig – plastigau caled fel arfer o ffynonellau awdurdod lleol fel canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref a gwastraff PVC fel fframiau ffenestri a drysau. Nid yw'r safle yn derbyn gwastraff peryglus ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod gwastraff peryglus ar y safle ar adeg y tân. Yn ystod ymweliad dilynol, roedd hi'n amlwg bod llawer iawn o waith glanhau ac adfer eisoes wedi'i gwblhau. Ers hynny, mae'r gweithredwr wedi derbyn ei lwyth cyntaf o wastraff plastig ac yn ehangu, gan roi'r flaenoriaeth i gasgliadau awdurdodau lleol. Mae mesurau diogelwch ychwanegol wedi cael eu rhoi ar waith gyda'r nod o atal hyn rhag digwydd eto. Mae ymchwiliadau gorfodi parhaus ar y gweill gan CNC a phartneriaid sy'n ymateb i ddigwyddiadau. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub i ystyried y dystiolaeth a gasglwyd ar adeg y digwyddiad.

Diweddariad am Raglen Taf

35. Nod Dull Strategol Dalgylch Taf yw cyfuno gwaith partneriaeth, cyd-gynhyrchu a gweithredu ar sail tystiolaeth ag egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n defnyddio'r dulliau ymaddasol a amlinellir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2025 ac yn dysgu o raglenni fel Aber Afon Tafwys 2100 a Phartneriaeth Brynbuga i sicrhau canlyniadau cydweithredol hirdymor.
36. Mae sefydlu strwythur llywodraethu aml-haen, aml-sefydliad yn ffocws allweddol. Drwy hynny gellir sicrhau perchnogaeth ar y cyd ar draws arweinyddiaeth strategol, cynllunio technegol, cyflawni ac ymgysylltu â'r gymuned. Bydd y rhaglen yn cynhyrchu Cynllun Strategol Dalgylch Taf ar gyfer y tymor hir, a ddefnyddir yn sail i ddatblygu strategaeth rheoli risg llifogydd ymaddasol. Bydd hyn yn dylanwadu ar bolisi ehangach, gan gynnwys cynlluniau datblygu lleol, strategaethau rheoli risg llifogydd lleol, cynlluniau llesiant a chylchoedd buddsoddi'r sector dŵr.
37. Drwy gydlynw gweithredu ar draws tir, dŵr a chymunedau, nod y dull yw gwella ansawdd dŵr, adfer rhwydweithiau ecolegol, cynyddu'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd a sicrhau llesiant cymdeithasol ac economaidd. Rydym wedi nodi nifer o gyfleoedd drwy Grwpiau Gorchwyl a Gorffen CNC, a bydd y rheiny'n cael eu datblygu ymhellach gyda phartneriaeth y dalgylch. Bydd pwyslais cryf ar atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys rheoli coetiroedd, adfer gorlifdir a defnyddio tir yn gynaliadwy, ochr yn ochr â gwelliannau i ansawdd dŵr a gwytnwch ecolegol.
38. Mae'r Bwrdd Strategol yn cynnwys Prif Weithredwyr o Gyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Dŵr Cymru. Rydym wedi cytuno ar gylch gorchwyl, gydag ymrwymiad ar y cyd tuag at ddull integredig, cydweithredol. Mae'r

rhaglen hefyd wedi ymgysylltu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg a bydd yn rhoi cyflwyniadau gerbron BGC Caerdydd a fforymau hinsawdd, gan gryfhau gwytnwch cymunedol a gwaith partneriaeth.

39. Yn rhan o'r dull integredig, mae cyllid ac adnoddau ychwanegol wedi cael eu sicrhau drwy'r rhaglen Argyfwng Natur a Hinsawdd, gan gefnogi gwaith i gyflawni gwelliannau i ansawdd dŵr, addasiadau ffisegol i gynefinoedd ac amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, gan ategu a chryfhau'r rhaglen ehangach.

Adeiladu Llwybr Pysgod Rhaeadr y Bedol

40. Yn dilyn gwaith i wella llwybr pysgod yng nghored Caer, tynnu cored Erbistog ger Bangor Is-y-coed, ac olion cored yn Llangollen, mae rhaglen LIFE Dyfrdwy yn gosod sianel osgoi i bysgod yn Rhaeadr y Bedol, ger Llangollen. Dyma'r cam nesaf o raglen fawr i wella llwybrau pysgod a symud gwaddod yn afon Dyfrdwy. Mae gwaith hefyd wedi'i gynllunio yng ngorsaf fedryddu Manley Hall yn yr haf cyn gweithio ar gored gorsaf fedryddu'r Bala ym mlwyddyn olaf y prosiect yn 2027.

Ansawdd Dŵr Ymdrochi – Canol De Cymru

41. Rydym wedi lansio Prosiect Dyfroedd Ymdrochi Canol De Cymru, menter aml-asiantaeth sy'n canolbwyntio ar ymdrin ag ansawdd dŵr ymdrochi yn Aberogwr a Bae Watch Mae'r prosiect yn mabwysiadu dull dalgylch cyfan, gan gydnabod bod amrywiaeth o ffactorau i fyni'r afon yn effeithio ar ansawdd dŵr yr arfordir, gan gynnwys systemau draenio trefol, dŵr ffo amaethyddol a systemau dŵr gwastraff wedi'u cam-gysylltu.
42. Dros y flwyddyn i ddod, bydd swyddogion CNC yn cynnal ymchwiliad a dadansoddiad targededig ar draws y dalgylch, gan gynnwys monitro ansawdd dŵr, asesiadau ecolegol a chanfod ffynonellau llygredd. Bydd hyn yn cael ei ategu gan waith ymgysylltu ar lawr gwlad â chymunedau a rhanddeiliaid i gasglu gwybodaeth leol a chefnogi newidiadau ymddygiadol ac ymarferol. Mae'r gwaith yn cael ei gydlynu mewn partneriaeth â Dŵr Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bro Morgannwg a'r Cydwasanaethau Rheoleiddio, gyda phwyslais cryf ar rannu data, alinio blaenoriaethau a gweithredu ar y cyd.
43. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu ymrwymiad CNC i gyflenwi darpariaeth integredig sy'n seiliedig ar le, gan gydnabod bod angen cydweithredu'n barhaus ar draws sefydliadau, a chynnwys cymunedau lleol yn weithredol er mwyn gwella ansawdd dŵr ymdrochi.

Rheoliadau Diwygio Dŵr Ymdrochi 2025

44. Mae dau leoliad dŵr ymdrochi newydd wedi'u dynodi ar gyfer tymor 2026, y naill yn safle mewndirol ger Pont Droï Llandeilo ar Afon Tywi, a'r llall yn safle arfordirol ger Bae Ffont-y-gari, ym Mro Morgannwg.
45. Yn ogystal â hyn, ceir rheoliadau diwygiedig ar gyfer dyfroedd ymdrochi (Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2025). Mae'r diwygiadau yn cynnwys cael gwared â'r drefn o ail-ddynodi dyfroedd ymdrochi yn awtomatig ar ôl pum mlynedd o ddosbarthiad gwael, a chyflwyno asesiad hyfywedd; rhagor o ystyriaethau

ail-ddynodi ar gyfer dyfroedd ymdrochi arfaethedig (ansawdd y dŵr, diogelwch ffisegol, a statws cadwraeth); a chaniatáu Gweinidogion i bennu tymor ymdrochi cenedlaethol. Yng Nghymru, y tymor newydd yw 1 Mai hyd 30 Medi. Ceir rhai diwygiadau technegol hefyd i foderneiddio'r rheoliadau i gyd-fynd â ffyrdd cyfredol o weithio, a newidiadau i rai rheolau'n gysylltiedig â samplu.

Diweddariad am Farlas

46. Yn gynnar ym mis Mehefin, cafodd gorsaf pwmpio carthion Marlas a'r brif bibell godi eu troi yn ôl ymlaen ar ôl cwblhau'r gwaith o osod prif bibell godi dros dro ar y tir. Nid oedd unrhyw ollyngiadau o'r orsaf bwmpio i ddechrau. Parhaodd Dŵr Cymru i fonitro Afon Cynffig ac ar ôl cyfnod penodol, tynnodd y pypiau awyru a oedd wedi'u gosod yn yr afon i gynyddu lefelau ocsigen toddedig. Rydym wedi bod yn gwneud gwaith monitro pellach ar Afon Cynffig yn sail ar gyfer ein hymchwiliad parhaus.
47. Yn dilyn hyn, aethom i gyfarfod cyhoeddus wedi'i drefnu gan A Peace for Nature (APFN). Roedd nifer dda yn y cyfarfod, gyda thros gant o bobl yn bresennol, cynrychiolaeth dda o wleidyddion lleol ac uwch gynrychiolwyr o Ddŵr Cymru. Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar ymateb Dŵr Cymru a'u rheolaeth ar risg hyd at ddigwyddiad Marlas, y cynllun adfer ar gyfer Cynffig a phwyntiau ehangach ynghylch trefniadau rheoli Dŵr Cymru.
48. Gofynnwyd cwestiynau penodol i ni ynghylch ein hymatebion gorfodi. Gan fod yr ymchwiliad ar y gweill, nid oeddem yn gallu rhoi manylion. Fodd bynnag, yr ymdeimlad gan fwyafrif helaeth o'r gynulleidfa (a'r gwleidyddion) oedd, os oeddem am gymryd camau gorfodi, y byddai'n well cael ymgymeriad gorfodi yn hytrach na chodi dirwy y byddai'n rhaid i'r trysorlys ei thalu. Mynegwyd pryderon gan y cyhoedd ynghylch y diffyg camau gorfodi yn erbyn Dŵr Cymru yn y gorffennol, ac mewn ymateb i hyn cyflwynwyd dadansoddiad o achosion erlyn diweddar a chamau a gymerwyd dros y deng mlynedd diwethaf.
49. Ers y cyfarfod rydym wedi gweld gollyngiadau pellach o orsaf pwmpio carthion Marlas, ynghyd â chynnydd yn niddordeb y cyfryngau cymdeithasol a'r wasg. Rydym wedi gweithio gyda'r tîm Cyfathrebu ar ddatganiad i ymateb i'r pryderon. O safbwynt gweithredol, mae Dŵr Cymru wedi rhoi rhagor o unedau awyru ar waith i wrthweithio'r gostyngiad mewn lefelau ocsigen toddedig, yn enwedig yn sgil y tywydd cynnes a llif isel y dŵr. Mae'r digwyddiad yn un sy'n parhau ac rydym yn ystyried opsiynau gorfodi.

Gweithdy Rhanddeiliaid Amaethyddol

50. Ym mis Mai, cynhaliom weithdy Rhanddeiliaid Amaethyddol ar Faes Sioe Frenhinol Cymru i archwilio'r rhwystrau a wynebier gan y gymuned ffermio wrth geisio cydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Mae ein gwaith cydymffurfio dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi dangos nad yw dros hanner y ffermydd yr ymwelwyd â nhw yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Er ein bod yn gweld gwelliant graddol mewn cyfraddau cydymffurfio, mae llawer i'w wneud o hyd.
51. Cafwyd derbyniad da i'r gweithdy, a nodwyd rhai rhwystrau allweddol, gan gynnwys prosesau cynllunio, cyllid, cymhlethdod y rheoliadau a'r ddealltwriaeth ohonynt, a dryswch ynghylch rolau CNC a Thaliadau Gwledig Cymru. Trafodwyd sut i reoli ac

ymdrin â'r problemau hyn. Bydd canlyniadau'r gweithdy yn cael eu rhannu â Fforwm Rheoli Tir Cymru a LIC yn ystod mis Gorffennaf, a byddwn yn gweithio gyda'r rheiny a rhanddeiliaid eraill i weithredu'r mentrau y cytunwyd arnynt.

Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd

52. Cynhaliwyd cynhadledd Rhaglen Mawndir y DU yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) ym mis Mehefin. Croesawodd y digwyddiad, a drefnwyd gan CNC, dros 400 o gynrychiolwyr i Brifysgol Abertawe ac ar ymweliadau safle rhanbarthol, a hefyd ar-lein. Y thema oedd *Mawndiroedd dan Bwysau* ac roedd yr agenda yn canolbwyntio ar yr heriau o gadw carbon yn ein mawndiroedd a'r llwyddiannau hyd yma, gan dynnu sylw at y cyfleoedd cynyddol i ehangu atebion sy'n seiliedig ar natur a chryfhau rôl mawndiroedd wrth fynd i'r afael â newid amgylcheddol.
53. Yn y gynhadledd hon, derbyniodd ein Huwch Gynghorydd Arbenigol ar fawndir, Dr Pete Jones, wobwr anrhydeddus, sef Gwobr Cadwraeth Mawndir Lindsay. Mae'r wobwr flynyddol hon yn cydnabod ymroddiad ac angerdd eithriadol dros fawndiroedd, ac mae Pete yn enillydd teilwng iawn ar ôl rhoi blynyddoedd o wasanaeth i fawndiroedd Cymru.

Natur yn ffynnu yng Ngŵyr, Abertawe

54. Mae modrwywyr adar Oxwich, sydd wedi bod yn monitro ac yn astudio adar yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Oxwich ers dros ugain mlynedd, wedi gwneud darganfyddiad cyffrous a gwirioneddol ryfeddol. Maent wedi llwyddo i ddal titwod barfog ifanc mewn rhwyd ar y safle. Y canfyddiad hwn yw'r cofnod magu cyntaf sydd wedi'i gadarnhau yng Ngŵyr ers dros hanner can mlynedd, sy'n tanlinellu pwysigrwydd cynyddol y safle i fywyd gwyllt. Yr unig boblogaeth arall sy'n magu y gwyddom amdani yng Nghymru yw'r boblogaeth yng Ngwlyptir Casnewydd, gan olygu bod y canfyddiad hwn hyd yn oed yn fwy arwyddocaol. Hyd yma, mae pum gwryw ifanc wedi'u cofnodi, sy'n dystiolaeth gref fod y titw barfog bellach yn magu yn Oxwich unwaith eto.
55. Mae tegeirian y fign bellach yn ffynnu mewn niferoedd mawr yng GNG Whiteford ar Benrhyn Gŵyr, a'r safle hwnnw yw'r pwysicaf yng Nghymru erbyn hyn ar gyfer y planhigyn hwn sy'n eithriadol o brin a phrydferth. Yn 2012, cofnodwyd llai na deg blodyn unigol ar draws Cymru gyfan. Diolch i ymdrechion cadwraeth arbennig, gan gynnwys rheolaeth ofalus ar gynefinoedd ac ailgyflwyno gyda thrwydded o'r hadyn, mae'r rhywogaeth wedi ymadfer yn rhyfeddol.

Diweddariadau Masnachol

Strategaeth Twf a Gwerth

56. Mae ein Strategaeth Twf a Gwerth wedi cael ei chymeradwyo gan y Tîm Gweithredol. Mae llawer o randdeiliaid a chydweithwyr wedi cyfrannu at greu ein gweledigaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Lansiwyd y strategaeth gennym yn Sioe Frenhinol Cymru, ochr yn ochr â'n Cynllun Gwerthu a Marchnata Pren. Gyda'r llywodraeth newydd bellach yn ei lle yn y Senedd, rydym mewn sefyllfa dda i ddangos sut y gallwn gefnogi polisi ac uchelgais i'w droi'n realiti.

Gwerthu a Marchnata Pren

57. Mae ein Cynllun Gwerthu a Marchnata Pren diwygiedig wedi'i gwblhau ac yn gyson ag uchelgeisiau ehangach Strategaeth Ddiwydiannol Pren LIC. Mae'r cynllun pum mlynedd hwn yn cynnig ymrwymiad i gyflenwi pren i'r sector er mwyn sefydlu hyder yn y diwydiant, ar gyfer buddsoddiad a thwf economaidd yn y dyfodol. Yn y bôn, mae'n ddiwylliant sy'n rhoi'r pwys mwyaf ar ddiogelwch. Mae Cynllun Corfforaethol CNC ac uchelgeisiau timau Lle ledled Cymru wedi cael eu defnyddio'n sail i ysgogi ein rhaglen gwerthu pren a'n cynnig i'r farchnad.
58. Mae perfformiad gwerthiant pren eleni wedi dechrau mewn sefyllfa gref, gyda gwerthiannau positif wedi'u sicrhau i'r dyfodol a chynnydd da, ac incwm yn sgil hynny, o'r tir yn ein gofal. Rydym wedi dyfarnu contractau gwerthu pren yn ddiweddar o'r gwerthiant ym mis Ebrill, ac wedi sicrhau canlyniadau da mewn marchnad ryngwladol anwadal. Yn sgil lansio tendr agored ym mis Gorffennaf ar gyfer gwerthu pren, byddwn yn cyflawni 64% o raglen y flwyddyn lawn hyd yma, felly mae gennym hyder yn ein gallu i gyflawni eleni.
59. Rydym wedi sefydlu ymgysylltiad rheolaidd â'n tîm Nawdd yn LIC ar y mater hwn ac yn ddiweddar wedi cwrdd â Chyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru i rannu gwybodaeth a diweddariadau am heriau'r farchnad a sut rydym yn rheoli a monitro ein hincwm o werthiant pren, i roi hyder a sicrwydd credadwy ynghylch ein gwaith.

Canolfannau Ymwelwyr

60. Mae gwaith i ailsefydlu ein canolfannau ymwelwyr yn mynd rhagddo. Mae canolfan ymwelwyr Ffordd Goedwig Cwmcarn a Chyngor Caerffili wedi cyrraedd statws cynigydd a ffafir, ac rydym yn bwrw ymlaen â'r trefniadau a'r telerau prydlesu terfynol rhwng yr holl bartïon.
61. Mae'r canolfannau ymwelwyr yng Nghoed y Brenin yng Ngwynedd a Bwlch Nant yr Arian yng Ngheredigion wedi bod drwy gyfnod marchnata helaeth gan wahodd cynigion. Rydym wedi derbyn ystod o gynigion cadarnhaol ar gyfer y ddau safle ac erbyn hyn wedi llunio rhestr fer o gynigwyr a gwahodd partïon llwyddiannus i gyfres o drafodaethau deialog er mwyn sicrhau'r partner cywir ar gyfer safleoedd ein canolfannau ymwelwyr. Bydd y broses hon yn cael ei chefnogi gan gynrychiolwyr cymunedol a enwebir gan gynghorau cymuned lleol, i roi adborth a chymryd rhan yn rhywfaint o'r ddeialog gystadleuol â chynigwyr posibl dros yr haf.

Diweddariadau Mewnol

Diweddariad am y Fflyd a Chyfleusterau

62. Mae'r tîm Trawsnewid Swyddfeydd yn archwilio opsiynau ar gyfer swyddfa Maes y Ffynnon ac yn gweithio gyda phenseiri i ffitio dyluniad cysyniadol er mwyn sicrhau bod yr opsiwn a ffafir yn bodloni anghenion defnyddwyr. Mae cydweithwyr yn cael y newyddion diweddaraf. Cyn gynted ag y bo'r bwrdd prosiect wedi'i sicrhau bod yr opsiwn a ffafir yn addas i'r diben, byddwn yn rhannu gwybodaeth bellach. Rydym wedi ymrwymo i aros yn yr adeilad presennol tan ar ôl y Nadolig.

63. Mae'r gorchymyn cyntaf wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer y contract seilwaith gwefru cerbydau trydan (EVCI) a bydd y gwaith yn dechrau yn swyddfa Resolfen fel safle i brofi'r dyluniad. Mae atebion interim pellach yn cael eu gwerthuso ochr yn ochr â'r gwaith i osod y seilwaith parhaol.

Cadw Ardystiad ISO14001

64. Yn dilyn archwiliad eang gan Sefydliad Safonau Prydain (BSI) ac ymweliadau â chwech o'n depos, mae CNC wedi cadw ei ardystiad ar gyfer safon rheoli amgylcheddol ISO14001:2015. Ni nodwyd unrhyw achosion o bwys o ddiffyg cydymffurfio yn yr adroddiad archwilio - dim ond un mân achos yn gysylltiedig â labelu a chludo tanwydd. Mae'r canlyniad archwilio yn cadarnhau bod "system reoli effeithiol ar waith sy'n cefnogi'r sefydliad i gyflawni ei amcanion, ei strategaeth a'r canlyniadau a fwriedir ganddo, gyda thystiolaeth o ymdrechu'n barhaus tuag at welliant parhaus". Mae'r canlyniad gwych hwn yn adlewyrchu gwaith caled ac ymrwymiad llawer o gydweithwyr ar draws yr holl swyddfeydd, sy'n cynnal ein safonau rheoli amgylcheddol uchel bob dydd.

Ymweliad Gwyliadwriaeth Gwasanaeth Achredu'r DU (UKAS)

65. Mae ein hymweliad gwyliadwriaeth blyneddol gan UKAS wedi cael ei gynnal, gydag UKAS yn cloi ei ganfyddiadau gydag argymhelliad i gadw ein statws achredu ISO17025:2017. Y safon hon yw'r brif safon ryngwladol ar gyfer labordai profi a graddnodi a'r meincnod a ddefnyddir i sicrhau bod canlyniadau labordy yn gywir ac yn ddibynadwy, ac y gellir eu hamddiffyn yn gyfreithiol.
66. Roedd yr adborth archwilio yn cynnwys pedwar argymhelliad, deuddeg canfyddiad lle'r oedd angen tystiolaeth a thri lle nad oedd angen tystiolaeth. Mewn sylwadau gan yr archwilyr, nodwyd bod yno "staff galluog iawn sy'n dangos lefel uchel o gymhwysedd" a "buddsoddiad rhagorol mewn offer newydd o'r radd flaenaf", yn ogystal â gwytnwch ychwanegol o fewn y tîm microbioleg, lefel uchel o hyfforddiant i staff tymhorol a bod perfformiad rhagorol yn parhau mewn cynlluniau hyfedredd. Ochr yn ochr â safonau technegol uchel, mae'n braf gweld "pobl dda a diwylliant hapus ar y safle" ymhlith eu harsylwadau.

Achrediad Llythrennedd Carbon Arian

67. Yng Ngwobrau'r Sefydliad Llythrennedd Carbon ym Manceinion ym mis Mehefin, dyfarnwyd achrediad arian i CNC gan y Sefydliad Llythrennedd Carbon (CLO). Y CLO yw'r corff achredu ar gyfer y gymuned sy'n tyfu'n gyflym o unigolion a sefydliadau sy'n cymryd camau ystyrlon yn gysylltiedig â'r hinsawdd drwy dderbyn hyfforddiant Llythrennedd Carbon. Drwy'r achrediad, bydd enillwyr yn cael bathodyn gweladwy sy'n dangos eu hymrwymiad i weithredu'n gysylltiedig â'r hinsawdd a'u hymroddiad i greu a chynnal diwylliant carbon isel. Mae angen cymryd amrywiaeth eang o gamau i ennill achrediad Arian, gan gynnwys lefelau hyfforddi ar wahanol raddau, hyrwyddo llythrennedd carbon drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a datblygu astudiaethau achos ac ati. Mae'r rhan fwyaf o'n Timau Arweinyddol a Rheoli bellach yn garbon-llythrennog, gan gynnwys ein Prif Weithredwr. At ei gilydd, mae mwy na 1,200 o'n cydweithwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant, gyda'r mwyafrif ohonynt yn symud ymlaen i ennill ardystiad.

68. Rydym yn anelu am achrediad aur. Mae llawer o'r meini prawf gofynnol ar gyfer y lefel hon o achrediad eisoes wedi'u bodloni, er bod cryn waith i'w wneud i sicrhau bod o leiaf 56% o'r staff yn llythrennog o ran carbon. Mae mwy i hyn na chyrraedd y lefel nesaf o achrediad: dengys adborth fod cydweithwyr sy'n cwblhau'r hyfforddiant yn teimlo wedi'u grymuso'n fwy a'u bod yn llawer mwy tebygol o ystyried effeithiau carbon yn eu penderfyniadau beunyddiol.

Lleoliadau Cynllunio CLILC

69. Yn ddiweddar, rydym wedi penodi dau leoliad cynllunio i raddedigion drwy gynllun Llwybrau at Gynllunio Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Pwrpas y cynllun yw datblygu capasiti o fewn y system gynllunio ledled Cymru, ac mae'n gweinyddu'r holl brosesau dyrchafu, recriwtio ac asesu cychwynnol. Profwyd ei fod yn ffordd effeithiol o gyrraedd graddedigion, gan gyfrannu hefyd at ehangu cydnherthedd o fewn sector cynllunio Cymru.
70. Ariennir y lleoliadau dwy flynedd o hyd drwy'r gyllideb cydsynio seilwaith. Drwy'r cynllun, darperir cyllid hefyd i'r gweithwyr ar leoliad gael cwblhau gradd Meistr mewn pwnc sy'n gysylltiedig â chynllunio amaethyddol yn ystod eu cyfnod gyda ni. Byddant yn cylchdroi rhwng y Gwasanaeth Cyngori ar Gynlluniau Datblygu o fewn Gweithrediadau Cenedlaethol a'r tîm Polisi Cynllunio yn y Gyfarwyddiaeth Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth er mwyn rhoi profiad cyflawn iddynt o holl ystod ein gwasanaeth cynllunio. Mae'r cynllun hefyd yn lleoli graddedigion gydag awdurdodau cynllunio lleol a Phenderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Cymru. Rydym wedi trafod gyda threfnwyr y cynllun y posibilrwydd i leoliadau yn y dyfodol gylchdroi rhwng y sefydliadau hyn.

Recriwtio Prif Weithredwr a Swyddogion Gweithredol

71. Mae ein hasiantaeth chwilio ar gyfer swyddi gweithredol, Goodson Thomas, wedi dechrau'r broses recriwtio ar gyfer rolau Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Cenedlaethol a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (Lle). Mae pecyn i ymgeiswyr wedi cael ei ddatblygu ac rydym wedi cytuno ar amserlen, gyda'r ddwy rôl yn cael eu cyflwyno gerbron panel gwerthuso i'w cadarnhau yn ystod mis Gorffennaf.
72. Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr â Goodson Thomas ym mis Gorffennaf i drafod rolau'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr. Rhagwelir y bydd cyfweiliadau ar gyfer rôl y Prif Weithredwr wedi'u cwblhau cyn diwedd y flwyddyn.

Cyfathrebu

Cyfathrebu Corfforaethol

73. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi rheoli ystod o faterion cymhleth yn gysylltiedig ag enw da ochr yn ochr â chynnal ymgyrchoedd rhagweithiol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cyfeiriwyd adnoddau sylweddol tuag at reoli cyfathrebu ynghylch digwyddiadau llygredd a effeithiodd ar Afon Ddyfrdwy, Cynffig a Thawe, sydd wedi ennyn diddordeb parhaus yn y cyfryngau ac ymhlith rhanddeiliaid. I'r perwyl hwnnw bu'n rhaid cydweithio'n agos â LIC, lechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol a Dŵr Cymru er mwyn sicrhau negeseuon cyson ac amserol. Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys cynllunio i gyfathrebu'n rhagweithiol, ymgysylltu â rhanddeiliaid, cyfarfodydd

cyhoeddus, diweddariadau i'r Gofod Dinasyddion ac ymdriniaeth barhaus â'r cyfryngau.

74. Rydym wedi mynd ati'n weithredol i herio gwallau mewn adroddiadau, gan gynnwys cam-briodoli achosion a dryswch rhwng digwyddiadau llygredd a ffenomenau naturiol fel gordyfiant algâu. Rydym hefyd wedi sicrhau hawliau ymateb lle nad oedd CNC yn cael ei gynrychioli i ddechrau, gan atgyfnerthu ein rôl reoleiddio a'n sylfaen dystiolaeth.
75. Cyfeiriwyd cryn ymdrech hefyd tuag at baratoi am gyfres *Buried* y BBC ar lygredd etifeddol, gan weithio ar draws y timau Cyfathrebu, Cyfreithiol a thechnegol i sicrhau ymateb cydgysylltiedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn gyson â phartneriaid. Mae'r tîm hefyd wedi cefnogi cyfathrebu ar danau gwyllt, digwyddiadau diwydiannol fel tân Port Talbot, a materion sy'n dod i'r amlwg gan gynnwys adolygiad barnwrol yr Unedau Dofednod Dwys a phecyn gorfodi arfaethedig Ofwat ar gyfer Dŵr Cymru.
76. Rydym wedi parhau i fynd ati'n frwd i adrodd straeon, gan gynnwys adroddiad ar Countryfile o Goedwig Gethin yn tynnu sylw at ein gwaith partneriaeth a rheoli tir.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu Mewnol

77. Wrth gyfathrebu'n fewnol rydym wedi canolbwyntio ar gefnogi lansiad y pedwerydd Amcan Llesiant ac arolwg staff *Ein Llais*, gan gynnwys datblygu hwb penodol ar y fewnwyd i arddangos gwaith a chynnydd cysylltiedig. Roedd ymgysylltiad cynnar â'r arolwg yn gryf, gyda'r ymatebion iddo yn nesáu at 50% o fewn y pythefnos cyntaf. Cafodd y dyddiad cau ei ymestyn i ganol mis Gorffennaf er mwyn annog cyfradd gwblhau dda.
78. Rydym wedi ymateb i adborth gan gydweithwyr ynghylch 'gorlwytho' hysbysiadau cyfathrebu, drwy wella'r rheolaeth ar y sianel, lleihau'r ddibyniaeth ar y Canllaw Misol i Reolwyr a gweithio gyda'r Gwasanaethau Corfforaethol i gyflwyno blaengynllunio er mwyn cydlynu negeseuon yn well. Mae'r mentrau ymgysylltu cadarnhaol yn cynnwys cyflwyno canmoliaeth i gydweithwyr yng ngalwadau'r Diweddariad Misol i Reolwyr, sydd wedi cael derbyniad da.

Materion Allanol a Materion Cyhoeddus

79. Ffocws y gwaith fu cryfhau'r ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwella'r cydlynw mewn ymateb i gasgliadau'r Archwiliad Canfyddiadau, a rannwyd drwy weminar ar draws y sefydliad. Rydym hefyd wedi comisiynu adolygiad o fforymau dan arweiniad CNC a fforymau partneriaid i ganfod achosion o ail-wneud gwaith, lleihau gwastraff a chynyddu effeithlonrwydd.
80. Mae'r Tîm Cynorthwywyr Personol wedi dechrau defnyddio'r system rheoli rhanddeiliaid Tractivity, gan wella gwelededd a chysondeb gweithgarwch ymgysylltu. Mae taenlenni gwasgaredig lluosog bellach wedi'u disodli gan Tractivity, sy'n golygu y gallwn fod yn fwy proffesiynol, gwybodus a chyson wrth weithio gyda'n rhanddeiliaid.
81. Ym mis Mehefin, aeth CNC i'r Farchnad yn y Senedd, a oedd yn gyfle gwerthfawr i feithrin perthnasoedd ag Aelodau'r Senedd (ASau) yn dilyn yr etholiad, hyrwyddo blaenoriaethau CNC a chyflwyno deunyddiau allweddol, gan gynnwys ein *Canllaw* i

Weithio gyda Ni a Camau beiddgar ar gyfer 2026 a thu hwnt. Roedd yr ymgysylltu yn adeiladol ac yn gadarnhaol ar y cyfan. Daeth ansawdd dŵr i'r amlwg fel mater â blaenoriaeth ar draws etholaethau ac roedd yn sbardun amlwg ar gyfer gwaith achos, ac mae disgwyliad clir i CNC fod yn fwy rhagweithiol ac amserol wrth gyfathrebu, yn enwedig yn ystod digwyddiadau. Mynegodd ASau ddiddordeb cryf mewn ymgysylltu'n lleol, gan gynnwys ymweliadau safle a thrafodaethau ar lefel etholaeth, er bod llawer yn dal i sefydlu eu swyddfeydd, felly disgwylir i'r ohebiaeth a'r ymgysylltu gynyddu dros y misoedd nesaf.

Mae cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd

82. Mae'r gweithgareddau diweddar yn cynnwys lansio'r ymgyrch Effeithlonrwydd Dŵr, menter aml-bartner fawr i hyrwyddo newid ymddygiad a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o bwysau ar ddŵr. Cefnogodd CNC waith i ddatblygu'r ymgyrch ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, a bydd yn bresennol yn y digwyddiad lansio yng Nghaerdydd. Rydym hefyd wedi alinio ein trefniadau cyfathrebu ag adroddiadau rhyngwladol ar yr hinsawdd, ac wedi cyfleu negeseuon targededig yn ystod cyfnodau pan fo'r risg o danau gwyllt yn uwch, gan weithio gyda phartneriaid ac archwilio gweithgarwch ymgyrchu pellach dros yr haf.

Atal Llygredd Hyd yr Eithaf

83. Ansawdd dŵr fu'r prif ffocws. Yn dilyn y cyfnod cyn yr etholiad aildddechreuwyd cyfathrebu'n rhagweithiol ynghylch y tymor samplu dŵr ymdrochi ac addysgu'r cyhoedd ynghylch monitro a safonau. Rydym wedi cefnogi gweithgarwch aml-asantiaeth fel yr ymgyrch Clear Waters ac wedi parhau i hyrwyddo canlyniadau gorfodi i ddangos atebolrwydd ac ail-fuddsoddi mewn gwelliannau amgylcheddol. Rydym wedi parhau i roi'r flaenoriaeth i negeseuon ataliol, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth ynghylch adroddiadau llygredd ac egluro'r gwahaniaethau rhwng llygredd a digwyddiadau naturiol.

Byd Natur Wrthi'n Gwella

84. Wrth gyfathrebu rydym wedi parhau i dynnu sylw at weithgarwch cadwraeth ac adfer, gan gynnwys safleoedd a rhywogaethau gwarchodedig fel Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwyrfa. Yn ogystal â hynny, rydym wedi cefnogi digwyddiadau mawr yn y sector gan gynnwys Cynhadledd Mawndir IUCN a'r Gynhadledd Adfer Afonydd, gan arddangos arweinyddiaeth CNC. Ymhlith y gweithgareddau pellach rydym wedi hyrwyddo buddsoddiad Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ym mhrosiect Afon Teifi, yr Wythnos Rhywogaethau Estron Goresgynnol a Mai Di Dor.

Crynodeb o Gwynion, Canmoliaeth a Gohebiaeth

85. Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, mae'r Tîm Gohebu Canolog wedi ymdrin â 57 o eitemau o ohebiaeth. Atebwyd 100% o fewn y lefel gwasanaeth o ddeg / pymtheg diwrnod gwaith, gyda 47% wedi'u hateb o fewn pum diwrnod gwaith neu lai. Y pynciau llosg dros y cyfnod hwn oedd Kronospan, Safle Tirlenwi Hafod, llygredd dŵr a gollyngiadau carthffosiaeth (gan gynnwys digwyddiad Afon Cynffig) a thaliadau parcio yn Niwbwrch.

86. Cafwyd 71 o geisiadau Mynediad at Wybodaeth newydd ers ein diweddariad diwethaf (Ceisiadau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol / Rhyddid Gwybodaeth / Mynediad at Ddata gan y Testun). Anfonwyd 76 o ymatebion wedi'u cwblhau i geisiadau a gafwyd yn ystod y cyfnod diwethaf, gyda 91% o'r rheiny o fewn y lefel gwasanaeth ugain diwrnod gwaith a bennir drwy ddeddfwriaeth. Y prif themâu ar gyfer ceisiadau oedd llygredd dŵr, gwastraff a safleoedd tirlenwi, a bywyd gwyllt, rheoli tir a chadwraeth.
87. Ers ein diweddariad diwethaf, rydym wedi derbyn deuddeg eitem o ganmoliaeth i'r sefydliad ac/neu i gydweithwyr unigol. Gwnaethom hefyd agor 30 o gwynion newydd Cam 1. Ymatebwyd i 100% o'r rhain o fewn y lefel gwasanaeth ugain diwrnod gwaith; cadarnhawyd deg ac ni chadarnhawyd ugain ohonynt. Nid oedd unrhyw gwynion Cam 2 newydd, ond mae un gŵyn yn parhau o'r cyfnod blaenorol.
88. Yn ogystal â hyn, derbyniwyd dau hysbysiad o benderfyniad gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y cyfnod. Ni chafodd y naill na'r llall eu cadarnhau, a'r penderfyniad oedd '*peidio cynnal ymchwiliad*', sy'n dangos ein bod yn gweithredu'r canllawiau ar ymdrin â chwynion yn y modd cywir.
89. Mae'r timau Cwynion a Gohebiaeth wedi parhau i ymgysylltu â thimau ledled CNC drwy gyflwyno sesiynau galw heibio anffurfiol yn CP2. Pwrpas y rhain yw codi ymwybyddiaeth a phroffil y timau, esbonio ein gwaith a gweld ble gallwn helpu cydweithwyr gyda gohebiaeth. Rydym yn bwriadu ehangu'r rhain ymhellach drwy'r sefydliad.

Rhagolwg

- Dydd Mercher 9 Medi – Y Pwyllgor Cyllid
- Dydd Mawrth 22 Medi – Cyfarfod mis Medi y Bwrdd
- Dydd Gwener 25 Medi - Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Dydd Mawrth 29 Medi – Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig
- Dydd Iau 8 Hydref – Y Pwyllgor Pobl
- Dydd Iau 15 Hydref – Galwad Diweddarau'r Bwrdd

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	29 Gorffennaf 2026
Teitl y Papur:	Diweddariad ARAC i'r Bwrdd
Cyfeirnod y Papur:	26-07-B03
Noddwyd y papur gan:	Mair Gwynant, Cadeirydd ARAC
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynwyd y papur gan:	Mair Gwynant, Cadeirydd ARAC
Pwrpas y papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Darparu diweddariad llafar i'r Bwrdd ynghylch cyfarfod ARAC ar 4 Mehefin 2026.

Cefndir

1. Mae'r diweddariad hwn i'r Bwrdd yn ymwneud â chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) ar 4 Mehefin 2026.

Diweddariad

Archwilio Cymru

2. Darparodd Archwilio Cymru ddiweddariad ar set gychwynnol Cyfrifon Blynyddol CNC ar gyfer 2025-26, a dderbyniwyd ym mis Mai. Croesawodd ARAC y sicrwydd.

Diweddariad ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon

3. Cafodd ARAC ddiweddariad ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon (ARA). Cyflwynwyd prif bwyntiau'r Cyfrifon Blynyddol, gan fod archwiliad manwl wedi'i gynnal gydag aelodau ARAC cyn y cyfarfod. Cymeradwyodd ARAC y llythyr ymholiadau archwilio i'w gyflwyno i Archwilio Cymru.
4. Cafodd ARAC wybod am fformat newydd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025-26, ac awgrymwyd sesiwn alw-heibio er mwyn i ARAC adolygu'r fformat newydd hwn yn fanwl cyn cyfarfod ARAC ar 8 Gorffennaf.

Goruchwyliaeth ARAC o'r fframwaith rheoli risg a sicrwydd

5. Cafodd ARAC ddiweddariad ar reoli risg, gan gynnwys y cynnig i symleiddio'r fframwaith risg, y Cofnod Risgiau a Materion Sefydliadol, dangosfwrdd PowerBI ac adolygiad manwl y Tîm Gweithredol o Risg Strategol (SR) 02 . Byddai'r dangosfwrdd PowerBI cwbl weithredol yn cael ei gyflwyno i ARAC yn eu cyfarfod nesaf.
6. Cydnabu ARAC fod yr archwiliadau manwl o'r Risgiau Strategol (SRs) ar lefel y Tîm Gweithredol yn rhoi sicrwydd bod y risgiau'n cael eu rheoli'n weithredol, ond nododd y byddai'n parhau i oruchwyllo a chraffu ar yr archwiliadau manwl hyn. Cafodd y dull hwn o ymdrin â'r Strategaeth Rheoli Risg ei amlinellu, a chafodd ei gymeradwyo gan ARAC.

Adroddiad Chwarterol Archwilio Mewnol

7. Derbyniodd ARAC yr Adroddiad Chwarterol Archwilio Mewnol a chymeradwyo ychwanegu archwiliadau at y Cynllun Archwilio Mewnol.

Adroddiad Blynyddol Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO)

8. Croesawyd Adroddiad SIRO gan ARAC, a chydabuwyd ei ddefnyddioldeb. Trafodwyd yr Adroddiad, a diolchwyd i'r tîm am yr holl waith yn y maes hwn.

Adroddiad Archwilio Cymru ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAu)

9. Darparwyd diweddariad ar yr ymateb i adroddiad SoDdGAau Archwilio Cymru, gyda'r gwaith ar y trywydd iawn i fodloni'r dyddiadau cau ar gyfer yr argymhellion. Er bod y gwaith yn uchelgeisiol, roedd y camau gweithredu yn ymarferol ac yn realistig. Byddai ARAC yn derbyn adroddiad olrhain chwarterol ar y camau gweithredu wrth symud ymlaen.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	29 Gorffennaf 2026
Teitl y Papur:	Diweddariad ARAC i'r Bwrdd
Cyfeirnod y Papur:	26-07-B14
Noddwyd y papur gan:	Mair Gwynant, Cadeirydd ARAC
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynwyd y papur gan:	Mair Gwynant, Cadeirydd ARAC
